BBC Trust

# Ymateb Ymddiriedolaeth y BBC, ar ran y BBC, i Ail Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom, Cyfnod Dau

## Cynnwys


**1 RHAGAIR ..... 3**

**2 CRYNODEB GWEITHREDOL ..... 7**

**3 MAINT Y BROBLEM ..... 14**

3.1 Cyd-destun y farchnad ..... 15

3.2 Canfod ateb ..... 20

**4 SWYDDOGAETH BARHAUS AR GYFER ITV, CHANNEL 4 A FIVE ..... 21**

4.1 Anghenion cynulleidfaoedd ..... 22

**5 ARIAN ..... 30**

5.1 Y defnydd o ffi'r drwydded ..... 32

5.2 Ffynonellau arian eraill ..... 39

5.3 Y potensial ar gyfer cyflwyno elfen o gystadleuaeth ..... 41

5.4 Partneriaethau: ateb amgen? ..... 44

**6 CASGLIADAU ..... 48**

**7 ATODIADAU ..... 50**

7.1 Modelu marchnad CapGemini ..... 50

7.2 Ymchwil i gynulleidfaoedd ..... 50

# 1 Rhagair

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn croesawu cyfnod dau o ymgynghoriad Ofcom ar ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (DGC). Yn yr ymateb hwn, mae'r Ymddiriedolaeth yn ateb, fel corff sofran y BBC, ar ran y BBC i gyd.

Wrth ystyried yr adolygiad DGC, gallai rhywun feddwl bod y byd teledu mewn cyflwr da iawn. Er y twf cyflym mewn gwasanaethau ar-lein, mae pobl yn treulio bron i awr yr wythnos yn fwy yn gwylio'r teledu nag yr oeddynt yn ei wneud tair blynedd yn ôl, gydag arwyddion bod y nifer sy'n gwylio sianeli daearol yn parhau yn gymharol sefydlog. Mae'r rhyngrwyd hefyd yn dechrau ysgogi defnydd newydd, er mai cyfran fach iawn yn unig o'r gwylio cyffredinol yw hyn.

Fodd bynnag, yn yr amgylchedd hwn mae heriau strwythurol sylfaenol difrifol yn cael eu creu gan y rhyngrwyd, yn bennaf gan ei fod yn lleoliad amgen ar gyfer hysbysebu, nid cymaint oherwydd ei fod yn ffordd o ddefnyddio cynnwys.

Felly, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn wynebu'r anhawster o alw uchel am raglenni o ansawdd da, ond llai o arian o'r hysbysebu a gynhyrchir mewn cysylltiad â'r rhaglenni hynny. Mae'r problemau hyn yn cael eu dwysau gan y dirywiad yn yr hinsawdd economaidd ers i Ofcom lansio ei adolygiad.

Mae'r ymateb hwn yn trafod safbwynt Ymddiriedolaeth y BBC ar faint y broblem. Efallai bod bwlch yn agor rhwng yr hyn y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol fel dinasyddion a'r hyn y bydd y farchnad yn ei gyflenwi o ran cyllid.

Gallai opsiynau ar gyfer llenwi'r bwlch a awgrymwyd gan Ofcom gynnwys treth ddiwydiant neu ailddosbarthu rhywfaint o'r arian a gesglir ar gyfer y BBC drwy ffi'r drwydded. Fodd bynnag, byddai'r ddau awgrym yn rhannu cyllid DGC cyfredol yn hytrach na'i gynyddu. Hefyd, awgrymodd Ofcom y gallai trethi newydd ddarparu'r arian, ond o ystyried yr amgylchedd economaidd sydd ohoni, nid ydym yn credu y bydd hyn yn opsiwn ymarferol. Ar ben hynny, tra bod cynulleidfaoedd am dderbyn llawer o fanteision darpariaeth y tu hwnt i'r BBC, nid ydynt mor barod i dalu amdanynt.

Mae'n bosibl y bydd rhan o ymateb Ofcom yn ymwneud â chaniatáu i ITV a Five gael gwared ar eu rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus dros amser a dibynnu ar Channel 4 i ddarparu lluosogrwydd (modelau 2 a 3 cyfnod dau Ofcom). Mae'r Ymddiriedolaeth yn credu, yn seiliedig ar yr hyn rydym wedi'i glywed gan gynulleidfaoedd, bod y tri yn cyfrannu at ddarparu'r amrywiaeth o gynnwys DGC y mae'r cyhoedd yn gwirioni arno a byddem yn ystyried y tri yn gyfranwyr allweddol yn y dyfodol. Mae angen i unrhyw ateb ganfod ffordd o sicrhau bod pob un ohonynt yn manteisio ar eu cryfderau.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn credu bod gan y BBC swyddogaeth wirioneddol wrth ddarparu atebion arloesol i'r problemau sy'n wynebu DGC. Ein her i Fwrdd Gweithredol y BBC yn ystod cyfnod un adolygiad Ofcom oedd datblygu cynigion partneriaeth cynaliadwy. Y rheswm wrth wraidd yr her hon yw y bydd DGC cynaliadwy ac effeithiol yn yr hirdymor yn gofyn am ddull gwahanol. Mae'n rhaid i atebion fod yn gydnaws â newidiadau yn y farchnad a cheisio diogelu DGC drwy ganfod ffynonellau gwerth

newydd, yn hytrach nag ailddyrannu arian cyfredol yn unig. Rydym yn credu y gallai'r partneriaethau cynaliadwy iawn gynnig ateb strategol hirdymor i'r problemau sy'n wynebu DGC, yn seiliedig ar gryfderau sefydliadau penodol, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gynulleidfaoedd. Trwy fanteisio ar sefyllfa'r BBC fel un o gonglfeini'r byd darlledu, rydym yn ceisio sicrhau manteision posibl i'r DGC masnachol yn ogystal â'r sector darlledu ehangach, gan gryfhau safle'r DU fel un o economïau creadigol cryfaf y byd. Ar yr un pryd, mae'n bwysig nad yw unrhyw atebion yn lleihau'r gwasanaeth i gynulleidfaoedd a ddarperir gan y BBC. Rhaid newid agweddau sylfaenol ac anghofio'r syniad o'r BBC fel ffynhonnell ddi-ben-draw o adnoddau, a chwilio am bob cyfle i weithio mewn partneriaethau agosach â darlledwyr eraill. Mae hefyd yn gyfle gwych i ddarparu'r dibenion cyhoeddus yn well ac felly cynnig gwell gwerth cyhoeddus i gynulleidfaoedd.

Heddiw, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cyhoeddi'r partneriaethau arfaethedig hynny ac mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn derbyn safbwyntiau – yn enwedig gan bartneriaid posibl ac eraill yn y diwydiant. Fel rwyf wedi'i ddweud o'r blaen, ni fydd yr Ymddiriedolaeth yn cadarnhau'r cynigion oni bai eu bod yn:

- gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ac yn arwain at ganlyniad cynaliadwy
- dangos gwerth amlwg i ddarpar bartneriaid a rhanddeiliaid eraill
- cynrychioli cyfle gwirioneddol, ac nad ydynt yn eithrio opsiynau realistig a allai arwain at gost ariannol i'r BBC – cyn belled ag y gellir cyfiawnhau'r gost honno gyda manteision i'r cyhoedd

Ac yn bwysicaf oll:

- Yn gyntaf, y gallwn sicrhau nad yw egwyddorion annibyniaeth, atebolrwydd a darparu dibenion cyhoeddus y BBC yn cael eu peryglu
- Yn ail, bod y cynigion hyn yn rhai sydd er lles ehangach y cyhoedd.

Roedd opsiynau Ofcom yn ei ddogfen cyfnod dau i gyd yn cynnig cymorth ar ôl 2012/13. Bydd angen nifer o gamau rheoleiddio i wireddu'r partneriaethau arfaethedig a byddwn yn gweithio gydag Ofcom yn y misoedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn credu eu bod yn cynnig y posibilrwydd o fanteision cynnar (mor gynnar â diwedd 2009 o bosibl) i DGC a darlledwyr ehangach ac felly cynulleidfaoedd yn y pen draw.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn awyddus i sicrhau bod hyn yn achosi newid sylfaenol yn y ffordd y mae'r BBC yn ystyried ei swyddogaeth yn y Deyrnas Unedig. Dylai partneriaethau gyflawni mwy na diogelu treftadaeth ddarlledu'r DU – dylent hefyd ganolbwyntio ar anghenion cynulleidfaoedd heddiw ac yn y dyfodol. Mewn rhai meysydd, fel safonau technolegol, mae'r BBC wedi bod yn hael ers blynyddoedd lawer ac wedi gweithio er lles y sector darlledu cyfan. Mewn meysydd eraill, fel gweithredu'r WOCC, mae'n gwneud cynnydd gwirioneddol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd angen mwy o ymdrech eto gan y BBC os yw am sicrhau a gweithredu partneriaethau effeithiol iawn, ond mae'n credu y bydd yr effaith o ran cymorth i'r sector DGC masnachol a'r dewis ar gyfer cynulleidfaoedd yn golygu ei bod yn talu ar ei chanfed.

*Syr Michael Lyons, Cadeirydd*

# 2 Crynodeb Gweithredol

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at gyfnod dau adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae ein cyflwyniadau yn seiliedig ar waith dadansoddi ac ymchwil newydd, yn arbennig:

- Dadansoddiad o ddarpariaeth y farchnad o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus a gwerthusiad o opsiynau cyllid ar gyfer cynnwys mewn mathau o raglenni sydd mewn perygl, a gyflawnwyd gan CapGemini ar gyfer y BBC
- Ymchwil ymysg y gynulleidfa i archwilio ymhellach i barodrwydd pobl i dalu am ddarpariaeth DGC ar sianeli masnachol, ac agweddau tuag at ffi'r drwydded o ran y disgwyliadau yn sgil yr arian hwn. Human Capital fu'n gyfrifol am ddadansoddi ac adrodd ar y gwaith ymchwil hwn, a defnyddio data a gasglwyd gan Ipsos MORI a The Knowledge Agency.

**Maint y broblem**

Mae DGC yn wynebu heriau strwythurol a chylchol difrifol, a nodwyd llawer ohonynt gan Ofcom yng nghyfnod dau yr ymgynghoriad. Mae yna feysydd allweddol i'w trafod ymhellach am y lefelau o ddarpariaeth gyfredol a manteision cynnal amrywiaeth o ddarparwyr DGC. Rydym yn cytuno bod y materion hyn yn hollbwysig i'r drafodaeth ac yn cytuno â sawl agwedd ar bwyslais Ofcom bod angen marchnad ddarlledu gystadleuol.

Mae'r byd darlledu'n newid yn gyflym, gyda mwy a mwy o ddarparwyr cynnwys, ym maes darlledu llinol traddodiadol yn ogystal â darlledu ar-lein ac ar-alw. Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn elfen barhaus o'r sefyllfa newidiol hon, ac mae'n wynebu heriau sylweddol. Fodd bynnag, ni ddylem orbwysleisio'r problemau neu'r manteision a achosir gan newidiadau yn y diwydiant, yn enwedig ar-lein; ni ddylid drysu rhwng anawsterau cylchol a thueddiadau strwythurol. Mae model CapGemini o'r farchnad ddarlledu fasnachol yn dangos bod llawer o'r cyfraniadau pwysicaf a wnaed gan DGC - rhaglenni gwreiddiol o'r DU a ddangosir yn ystod oriau brig, chwaraeon a dramâu o ansawdd - yn parhau i fod yn broffidiol.

Credwn fod angen derbyn tua £250 miliwn o arian gan ffynonellau heblaw'r BBC, yn hytrach na'r £330 miliwn - £420 miliwn y mae Ofcom yn ei gynnig, ond rydym ni ac Ofcom yn cytuno bod peryglon gwirioneddol yn wynebu newyddion rhanbarthol, darpariaeth plant ac - i raddau llai - newyddion cenedlaethol a rhywfaint o gynnwys ffeithiol arbenigol.

Yn amlwg, mae'n rhaid i unrhyw ymyriadau cyfredol neu newydd fod yn effeithlon, effeithiol ac yn briodol a bod yn ganlyniad cynaliadwy ar gyfer y BBC a darlledwyr masnachol.

**Swyddogaeth barhaus ar gyfer ITV, Channel 4 a Five**

Mae Ofcom wedi awgrymu bod cystadleuaeth i'r BBC o fodd i gynulleidfaoedd mewn tair ffordd: drwy ddarparu amrywiaeth o leisiau a safbwyntiau, drwy wella cyrhaeddiad ac effaith cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, a thrwy weithredu fel sbardun cystadleuol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicr bod y ddarpariaeth y tu hwnt i'r BBC yn cael ei werthfawrogi gan gynulleidfaoedd a bod yr holl DGC cyfredol, a'r farchnad ehangach, yn parhau i wneud cyfraniadau pwysig. Fodd bynnag, nid ydym wedi'n hargyhoeddi eto bod llu o wahanol ddarparwyr yn darparu amrywiaeth o safbwyntiau, gwell cyrhaeddiad ac effaith, a sbardun cystadleuol. Mae'n bwysig deall hyn, gan ei fod yn cynorthwyo i weld ble mae angen ymyriadau fwyaf yn y dyfodol.

Mae'r gynulleidfa yn amlwg yn cefnogi cefnogaeth darpariaeth y tu hwnt i'r BBC. Er enghraifft, datgelodd ymchwil ansoddol a gynhaliwyd ar ran y BBC bod pobl yn cydnabod fod amrywiaeth o ddarparwyr DGC yn cyfrannu sawl gwahanol naws ac, mewn egwyddor, bod cystadleuaeth yn cadw'r BBC ar flaenau ei thraed.

Fodd bynnag, mae'r farn ynglŷn â'r angen am ddarpariaeth y tu hwnt i'r BBC yn amrywio'n sylweddol yn ôl mathau o raglenni: mae 52% yn meddwl ei bod hi'n hanfodol yn eu cartrefi nhw bod ITV, Channel 4 neu Five yn parhau i ddangos newyddion cenedlaethol neu ryngwladol yn y dyfodol; ac mae 47% yn credu'r un fath am newyddion o'u rhan nhw o'r DU. Ond, mae mathau o raglenni eraill sydd mewn perygl, fel rhaglenni am y celfyddydau a cherddoriaeth glasurol a chrefydd yn cael blaenoriaeth lawer is, er enghraifft: 9% yn unig sy'n ystyried bod parhau i ddarparu rhaglenni crefyddol yn hanfodol[1]. O safbwynt y gynulleidfa felly, mae'r angen i ymyrryd yn amrywio.

Hefyd, rydym wedi canfod bod parodrwydd y gynulleidfa i dalu am fathau o raglenni DGC sydd mewn perygl yn debygol o fod yn llawer llai na'r awgrymodd ymchwil gynharach a gynhaliwyd gan Ofcom. Datgelodd ymchwil a gyhoeddwyd gan Ofcom bod aelwydydd yn barod i dalu £2.92 ar gyfartaledd, er mwyn cadw darpariaeth mathau o raglenni DGC y tu hwnt i'r BBC. Mae'r ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer y BBC yn awgrymu y bydd y swm y byddai cynulleidfaoedd yn barod i'w dalu am y mathau o raglenni sydd mewn perygl yn debygol o fod oddeutu £1.28 yr aelwyd y mis. Mae'n debyg mae'r sefyllfa economaidd sydd ohoni sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth hwn.

## Arian

Rydym yn falch o weld ffocws newydd ar effeithlonrwydd a gwerth am arian yn adroddiad Cyfnod dau Ofcom. Rydym yn amlwg yn cefnogi'r angen i ymyrryd i ddiogelu dibenion a nodweddion DGC, ond byddem yn dadlau'n ffyrnig bod angen gwario a defnyddio unrhyw arian cyhoeddus a chymorth o unrhyw fath yn effeithlon a gwneud y defnydd gorau o bob opsiwn. Yn yr achos hwn, mae'n bwysig iawn gan fod ymchwil y BBC yn awgrymu nad yw pobl mor barod i dalu am ddarpariaeth luosog DGC.

Awgrymwyd ffi'r drwydded fel ffynhonnell arian bosibl ar gyfer DGC y tu hwnt i'r BBC. O ystyried mai blwyddyn yn unig o setliad cyfredol ffi'r drwydded sydd wedi mynd, mae'n llawer rhy gynnar i ddyfalu am ofynion arian ffi'r drwydded yn 2013. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, nid oes sicrwydd y bydd lefel gyffredinol ffi'r drwydded o 2012-13 yn cael ei chynnal, nac y bydd yr elfen sy'n cael ei neilltuo ar hyn o bryd er mwyn cynorthwyo i ddarparu chweched diben cyhoeddus y BBC yn parhau.

[1] Mae hyn yn seiliedig ar yr holl oedolion sydd â theledu (98% o ymatebwyr yn ein harolwg meintiol)

Mae'r cysylltiad rhwng ffi'r drwydded a'r BBC yn un cymhleth.  Awgrymodd ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer Ofcom nad oes llawer o bobl yn ymwybodol o'r hyn y mae ffi'r drwydded yn talu amdano, a daeth i'r casgliad na fyddai gan y mwyafrif o bobl wrthwynebiad mewn egwyddor i ffi'r drwydded ariannu darlledwyr eraill.  Datgelodd mai 44% yn unig o bobl oedd yn hollol ymwybodol mai ffi'r drwydded sy'n ariannu'r BBC. I'r gwrthwyneb, datgelodd arolwg y BBC bod 70% o'r cyhoedd yn crybwyll y BBC pan ofynnwyd pa ddarlledwyr sy'n cael eu hariannu gan ffi'r drwydded, ac rydym yn priodoli hyn i gwestiwn mwy pwrpasol.  Fel Ofcom, datgelodd ein hymchwil bod ymwybyddiaeth yn sgil anogaeth yn codi ymhellach, i 86%.

Mae ymchwil ansoddol a gynhaliwyd ar gyfer y BBC hefyd yn dod i'r casgliad bod arian ffi'r drwydded yn arwain at fanteision pwysig i'r cyhoedd: sicrhau gwasanaethau o ansawdd, rhywbeth i bawb, a chadw'r BBC yn rhydd o hysbysebion.  Yn ymchwil meintiol y BBC, cytunodd y mwyafrif llethol o ymatebwyr (84%) y dylai'r BBC fod yn atebol i'r cyhoedd o ran sut y mae'n gwario ei hincwm.  Roedd hyn yn llawer uwch nag ar gyfer darlledwyr eraill.  Pan ofynnwyd a ddylai DGC, a ariannir yn fasnachol, fod yn atebol i'r cyhoedd o ran sut maent yn gwario eu hincwm, cytunodd 46% y dylai hyn fod yn wir ar gyfer Five, 49% ar gyfer Channel 4, a 51% ar gyfer ITV.

Wrth feddwl am ganlyniadau posibl arian ffi'r drwydded ar gyfer darlledwyr eraill, mae'n ddiddorol sylwi, er bod y niferoedd yn isel, pan fo ymatebwyr yn credu fod ITV1 neu Channel 4 *eisoes* yn derbyn incwm ffi'r drwydded, yna maent yn fwy tebygol o gytuno y dylai'r darlledwyr hyn fod yn atebol i'r cyhoedd am sut maent yn gwario eu hincwm.  Er enghraifft, mae 75% o'r rhai hynny sy'n credu eu bod eisoes yn derbyn arian ffi'r drwydded yn credu y dylai ITV1 fod yn atebol i'r cyhoedd, o gymharu â 49% o'r rhai hynny nad ydynt yn credu bod ITV1 yn cael ei ariannu fel hyn.  Mae patrwm tebyg i'r farm am Channel 4 hefyd.

O ran defnyddio rhan o ffi'r drwydded i ariannu mathau o raglenni sydd mewn perygl ar DGCau masnachol, mae ymchwil Ofcom ei hun yn awgrymu pe bai arian dros ben, y byddai'n well gan y cyhoedd (63%) weld yr arian yn cael ei ddychwelyd iddynt ar ffurf gostyngiad yn ffi'r drwydded.

Yn ogystal ag ailddosbarthu ffi'r drwydded, mae Ofcom wedi awgrymu defnyddio treth diwydiant.  Fodd bynnag, mae'r ddau opsiwn yn cynnig rhannu arian DGC cyfredol yn hytrach na'i gynyddu.  Hefyd, awgrymodd Ofcom y gallai trethi newydd sicrhau'r arian, ond mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni'n golygu bod hyn yn ateb anodd ei weithredu.  Fodd bynnag, ymddengys bod asedau rheoleiddiol a hunangymorth yn cynnig cyfleoedd pwysig ar gyfer ariannu DGC yn y dyfodol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn credu bod gan y BBC gyfraniad pwysig i'w wneud o ran darparu atebion arloesol i'r problemau sy'n wynebu DGC.  Ein her i Fwrdd Gweithredol y BBC yn ystod cyfnod un o adolygiad Ofcom oedd datblygu cynigion ar gyfer partneriaethau cynaliadwy.  Y rheswm wrth wraidd yr her hon yw y bydd DGC cynaliadwy ac effeithiol yn yr hirdymor yn gofyn am ddull gwahanol.  Mae'n rhaid i atebion weithio gyda llif newidiadau yn y farchnad a cheisio diogelu DGC drwy ganfod ffynonellau gwerth newydd, yn hytrach nag ailddyrannu arian cyfredol yn unig.  Credwn y gallai'r partneriaethau cynaliadwy cywir gynnig ateb hirdymor a strategol i'r problemau sy'n wynebu DGC, yn seiliedig ar gryfderau sefydliadau penodol y mae'r cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Drwy ddylanwadu ar swyddogaeth

hollbwysig y BBC ym maes darlledu rydym yn ceisio darparu manteision posibl i'r DGC masnachol yn ogystal â'r sector darlledu ehangach , gan atgyfnerthu safle'r DU fel un o economïau creadigol cryfaf y byd. Ar yr un pryd mae'n bwysig nad yw unrhyw atebion yn lleihau'r gwasanaeth a ddarperir i gynulleidfaoedd gan y BBC. Rhaid newid agweddau sylfaenol ac anghofio'r syniad o'r BBC fel ffynhonnell ddi-ben-draw o adnoddau, a chwilio am bob cyfle i weithio mewn partneriaethau agosach â darlledwyr eraill. Mae hefyd yn gyfle gwych i ddarparu'r dibenion cyhoeddus yn well ac felly cynnig gwell gwerth cyhoeddus i gynulleidfaoedd.

Heddiw, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cyhoeddi'r partneriaethau arfaethedig hynny ac mae'r Ymddiriedolaeth yn awr am dderbyn sylwadau cynulleidfaoedd a phartneriaid posibl.

## Casgliadau

Mae heriau sylweddol yn wynebu'r system DGC ar hyn o bryd ac mae'r byd darlledu yn newid yn gyflym. Yn yr hinsawdd hon mae'n bwysig bod penderfyniadau ar ddarpariaeth DGC yn y dyfodol yn cael eu gwneud ar sail anghenion cynulleidfaoedd yn unig.

Mae cynulleidfaoedd yn parhau i werthfawrogi DGC, ond mae'r rhesymau dros y gwerthfawrogiad hwn yn gymhleth. Tra'u bod yn amlwg o blaid darpariaeth y tu hwnt i'r BBC, mae'r lefel o anghenion hanfodol y maent yn eu nodi yn amrywio fesul genre, gyda newyddion rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol ar frig blaenoriaethau cynulleidfaoedd, a mathau o raglenni eraill sydd mewn perygl fel rhaglenni am y celfyddydau a cherddoriaeth glasurol a chrefydd yn cael blaenoriaeth llawer is.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn credu bod gan yr holl DGCau cyfredol - ITV1, Channel 4 a Five - swyddogaeth bwysig yn y dyfodol. Mae cynulleidfaoedd yn dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r gwahanol gyfraniadau gan bob un o'r prif ddarlledwyr. Fodd bynnag, mae ymchwil ddiweddar a gynhaliwyd ar ran y BBC wedi datgelu bod cynulleidfaoedd yn llai parod i dalu am DGC nag a ddatgelwyd mewn ymchwil a gyhoeddwyd gan Ofcom, yn arbennig yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Mae cynnal darpariaeth DGC a'i chryfhau ar gyfer y dyfodol yn dipyn o her.

Dim ond ychydig o'r gynulleidfa sydd o blaid defnyddio arian ffi'r drwydded i dalu am ddarpariaeth y tu hwnt i'r BBC. Mae ymchwil cynulleidfa ddiweddaraf y BBC yn dangos bod yr ymwybyddiaeth ddigymell o'r hyn y mae ffi'r drwydded yn talu amdano yn llawer uwch na'r hyn a ddatgelodd Ofcom, a bod cysylltiad cryf rhwng y canfyddiadau pobl am arian ffi'r drwydded a disgwyliadau cynulleidfaoedd o ddarlledwyr.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn pryderu bod brigdorri yn cyfaddawdu annibyniaeth y BBC. Mae arian cyfredol y BBC yn dod o ffi'r drwydded, nid o drethi uniongyrchol. Caiff yr arian hwn ei ddyrannu mewn setliadau sy'n darparu ffrydiau arian sefydlog a rhagweladwy er mwyn i'r BBC allu seilio'i strategaeth hirdymor arnynt. Mae'r BBC yn atebol i'r Ymddiriedolaeth, fel ei gorff sofran, ar gyfer datblygu a darparu'r strategaeth hon. Er mwyn cyflwyno pethau eraill i fod yn ddibynnol ar ffi'r drwydded, byddai gofyn i gorff arall benderfynu ar lefel yr arian ar gyfer y BBC a darlledwyr eraill. Byddai'r corff hwn yn gorfod ysgwyddo pwysau ychwanegol i'r rhai a ysgwyddir gan y BBC yn unig, ac felly byddai hyn yn cael gwared ar allu'r BBC i ddilyn strategaeth hirdymor a ddarperir

gan sicrwydd arian, a'r llinellau atebolrwydd clir a ddarperir ar hyn o bryd gan yr Ymddiriedolaeth.

Mae gan yr opsiynau ariannu eraill a awgrymwyd eu problemau eu hunain.  Mae hyn yn golygu bod yna benderfyniadau anodd i'w gwneud.  Mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i unrhyw ateb gynyddu'r arian a roddir i DGC, a rhoi rhagor o fanteision i ddarlledwyr, yn hytrach nag ailddosbarthu'r arian yn unig.  Heddiw, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cyhoeddi'r partneriaethau arfaethedig hynny ac mae'r Ymddiriedolaeth yn awr am dderbyn sylwadau cynulleidfaoedd a phartneriaid posibl.

# 3 Maint y broblem

Mae DGC yn wynebu heriau strwythurol a chylchol difrifol, a nodwyd llawer ohonynt gan Ofcom yng nghyfnod dau yr ymgynghoriad. Mae yna feysydd allweddol i'w trafod ymhellach am y lefelau o ddarpariaeth gyfredol a manteision cynnal amrywiaeth o ddarparwyr DGC. Rydym yn cytuno bod y materion hyn yn hollbwysig i'r drafodaeth ac yn cytuno â sawl agwedd ar bwyslais Ofcom bod angen marchnad ddarlledu gystadleuol.

Mae'r byd darlledu'n newid yn gyflym, gyda mwy a mwy o ddarparwyr cynnwys, ym maes darlledu llinol traddodiadol yn ogystal â darlledu ar-lein ac ar-alw. Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn elfen barhaus o'r sefyllfa newidiol hon, ac mae'n wynebu heriau sylweddol. Fodd bynnag, ni ddylem orbwysleisio'r problemau neu'r manteision a achosir gan newidiadau yn y diwydiant, yn enwedig ar-lein; ni ddylid drysu rhwng anawsterau cylchol a thueddiadau strwythurol. Mae model CapGemini o'r farchnad ddarlledu fasnachol yn dangos bod llawer o'r cyfraniadau pwysicaf a wnaed gan DGC - rhaglenni gwreiddiol o'r DU a ddangosir yn ystod oriau brig, chwaraeon a dramâu o ansawdd - yn parhau i fod yn broffidiol.

Credwn fod angen derbyn tua £250 miliwn o arian gan ffynonellau heblaw'r BBC, yn hytrach na'r £330 miliwn - £420 miliwn y mae Ofcom yn ei gynnig, ond rydym ni ac Ofcom yn cytuno bod peryglon gwirioneddol yn wynebu newyddion rhanbarthol, darpariaeth plant ac - i raddau llai - newyddion cenedlaethol a rhywfaint o gynnwys ffeithiol arbenigol.

Yn amlwg, mae'n rhaid i unrhyw ymyriadau cyfredol neu newydd fod yn effeithlon, effeithiol ac yn briodol a bod yn ganlyniad cynaliadwy ar gyfer y BBC a darlledwyr masnachol.

## 3.1 Cyd-destun y farchnad


Cynhelir yr adolygiad hwn mewn marchnad sy'n mynd yn fwy amrywiol a chystadleuol ar gyfer cynulleidfaoedd. Er hyn, rydym yn cytuno ag Ofcom fod darpariaeth y farchnad yn debygol o barhau i gael ei gyfyngu i feysydd penodol, a bod meysydd eraill, sy'n tueddu i fod yn rhai gwasanaeth cyhoeddus, yn debygol o barhau i wneud colled. Yn sgil y newidiadau ym maes darlledu, mae'n amlwg bod yr hen system dan bwysau. Mae mwy o ddarparwyr, llai o refeniw hysbysebu a mwy o gystadleuaeth ryngwladol wedi rhoi DGC dan bwysau. Ni ellir cynnal mathau o raglenni sy'n gwneud colled yn draddodiadol bellach gydag elw o rannau eraill o'r drwydded.

Fodd bynnag, er y newidiadau hyn yn y farchnad ddarlledu, credwn fod cynnwys DGC yn parhau yn atyniadol i ddefnyddwyr a darlledwyr masnachol. Mae model Cyfnod dau Ofcom [2] yn nodi bod rhaglenni drama'r DU, a newyddion cenedlaethol, yn parhau'n

[2] *Ofcom, Ail Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, Cam Dau: paratoi ar gyfer y dyfodol digidol (2008), 87-91*

broffidiol yn y mwyafrif o sefyllfaoedd. Mae ein dadansoddiad o broffidioldeb yn debyg i un Ofcom ac rydym yn nodi bod rhaglenni materion cyfoes, newyddion cenedlaethol a ffeithiol arbenigol yn gwneud cyfraniad teg at broffidioldeb cyffredinol. Mae'r siart isod yn dangos amcangyfrifon o broffidioldeb gros fesul awr o raglenni yn ôl genre, yn seiliedig ar fodel CapGemini o'r farchnad ddarlledu fasnachol.

**Ffigur 1: Amcangyfrif o ffin gros DGC masnachol yr awr ar genres enghreifftiol (2007)**




[Graph text]
Thousands of pounds = Miloedd o bunnoedd
Other originations = Tarddiadau eraill
Sport = Chwaraeon
Quality Drama etc = Dramâu o Ansawdd ac ati
Current Affairs = Materion Cyfoes
Network News = Newyddion Rhwydwaith
Specialist Factual = Ffeithiol Arbenigol
Childrens = Plant
Nations and Regions = Gwledydd a Rhanbarthau

*Noder: Mae'r llinell goch yn dynodi'r cyfraniad £165,000 yr awr a amcangyfrifir sydd ei angen ar gyfer y ffin gros yn ystod yr oriau brig.*

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Capgemini*

Er bod sawl genre yn broffidiol ar y lefel ffin gros, er mwyn bod yn atyniadol yn fasnachol bydd angen iddynt hefyd sicrhau elw sy'n talu am eu cyfran o gostau canolog (a gynrychiolir gan y llinell goch). O dan y mesur hwn, nid yw mwyafrif o fathau rhaglenni DGC yn ddigon proffidiol, er mai dim ond methu cyrraedd y nod o ychydig mae rhai ohonynt. Gall y mathau o raglenni sydd ychydig yn amhroffidiol hefyd gyfrannu at sefyllfa gyffredinol y sianel ac felly bydd yn atyniadol i ddarlledwyr oherwydd eu heffaith gadarnhaol ar raglenni eraill a gwerthiant hysbysebion.

Mae'n amlwg i ni, heb ymyrryd, bod y cymhellion i fuddsoddi mewn mathau penodol o raglenni DGC yn parhau'n gryf, er efallai y bydd yn rhaid gostwng y nifer. Yn sgil hynny, bydd cystadleuaeth uniongyrchol yn parhau o fewn mathau o raglenni mewn rhai meysydd o DGC, yn ogystal â chystadleuaeth ehangach barhaus rhwng darlledwyr a llwyfannau. Fodd bynnag, mae'r un mor glir bod mathau allweddol o raglenni DGC yn parhau i fod dan bwysau ac mae'n debygol y bydd y farchnad yn cynhyrchu llawer llai ohonynt.

Yn y tymor hirach, gall darpariaeth y farchnad gynyddu o ffynonellau eraill, yn enwedig marchnadoedd darlledu rhyngwladol. Felly, mae'n debyg y bydd prif gystadleuaeth y BBC yn dod o'r Unol Daleithiau a mathau newydd o gyfryngau, yn ogystal ag ITV a Channel 4, Sky a Virgin.[3] Mewn marchnad lle ceir mwy a mwy o gynnwys byd-eang, nid yw cystadleuaeth yn dibynnu ar y DGCau cyfredol, ac mae'n dibynnu llai hyd yn oed ar eu rhwymedigaethau penodol, er bod ganddynt gyfraniad i'w wneud yn amlwg. Hyd yn oed mewn byd heb ei reoleiddio, byddai'r BBC yn parhau i wynebu cystadleuaeth sylweddol gan raglenni masnachol ITV a darpariaeth yr Unol Daleithiau ar amrywiaeth o ddulliau dosbarthu.

Wrth i dechnolegau gydgyfeirio, efallai y bydd darpariaeth y farchnad mewn meysydd mwy arbenigol hefyd yn cynyddu, o ffynonellau gwahanol i ddarlledwyr traddodiadol a hynny heb arian cyhoeddus. Fel y trafodwyd yng nghasgliadau dros dro diweddar yr Ymddiriedolaeth ar y prawf gwerth cyhoeddus ynglŷn â'r gwasanaeth fideo lleol, mae nifer o ddarparwyr papurau newydd, radio a chynnwys ar-lein masnachol lleol a allai ddatblygu'r hyn y maent yn ei gynnig. Er nad ydynt yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol yn Adolygiad DGC Ofcom, gall gweithredwyr radio a grwpiau papur newydd fod yn elfen bwysig o'r farchnad yn y dyfodol.

Gall sefydliadau cyhoeddus eraill fel amgueddfeydd ac orielau, sydd eisoes â phresenoldeb ar-lein llwyddiannus mewn sawl achos, gyfrannu mwy o gynnwys sy'n wasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.

Mae'r rhain yn feysydd posibl lle gallai'r BBC ddatblygu ei syniadau ar bartneriaethau i sicrhau mwy o werth cyhoeddus i gynulleidfaoedd.

### 3.1.1 Ansicrwydd darpariaeth y dyfodol

Er mwyn asesu unrhyw ddiffygion o ran darpariaeth yn y dyfodol, mae Ofcom wedi dadansoddi proffidioldeb pob genre ac wedi dod i'r casgliad bod y mwyafrif o'r ddarpariaeth gyfredol ar y DGCau masnachol dan fygythiad.[4] O ystyried yr ansicrwydd parhaus, credwn fod amrywiaeth eang o ganlyniadau posibl o ran darpariaeth DGC yn y dyfodol.

Yn fethodolegol, mae Ofcom wedi cyfrifo colledion mathau penodol o raglenni erbyn 2012 mewn sefyllfaoedd amrywiol. Mae ein modelau'n seiliedig ar strategaethau uchafu elw tebygol y DGCau masnachol. Er bod methodolegau'r modelau'n wahanol, maent yn rhannu cyfres debyg o egwyddorion. Mae'r naill a'r llall yn canfod bod mathau

---


[3] Robin Foster and Kip Meek, *Public Service Broadcasting in the UK: A Longer Term View*

*http://www.smf.co.uk/assets/files/publications/SMF%20PSB%20in%20the%20UK.pdf*

[4] Ofcom, 86-92

tebyg o raglenni dan bwysau.[5] Mae'r siart isod yn awgrymu lle'r ydym yn credu y bydd gostyngiadau, gydag uchder cyffredinol pob bar yn cynrychioli lefelau o ddarpariaeth ar DGCau masnachol yn 2007, yr elfen las yn dangos darpariaeth debygol y dyfodol y tu hwnt i'r BBC, a'r elfen wen yn dangos y nifer o oriau a gollir.

**Ffigur 2: Gostyngiad mewn oriau dangosiad cyntaf rhaglenni DGC masnachol mewn mathau o raglenni sydd mewn perygl**




[Graph text]
Hours = Oriau
Nations and Regions = Gwledydd a Rhanbarthau
Childrens = Plant
Network News = Newyddion Rhwydwaith
Quality Drama etc = Dramâu o Ansawdd ac ati
Specialist Factual = Ffeithiol Arbenigol
Current Affairs = Materion Cyfoes
Commercial PSB hours in the counterfactual = Oriau DGC masnachol a allai fod wedi digwydd
Reduction in the hours compared with 2007 = Gostyngiad mewn oriau o gymharu â 2007

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Capgemini*

Yn amlwg, mae'r pwysau'n amrywio yn ôl y math o raglen. Mae ein modelau yn awgrymu y gall y lefelau o arian sy'n ofynnol i unioni'r diffyg fod yn llai na'r hyn y mae Ofcom yn ei gredu. Er bod y ddau ymarfer modelu yn unigryw yn fethodolegol, credwn fod Ofcom wedi gwneud llawer o ragdybiaethau sydd wedi arwain at oramcangyfrif lefel yr arian sydd ei angen i ddiogelu DGC ar y DGCau masnachol o bosibl.

[5] Atodiad Cap Gemini

Yn y naill achos a'r llall, mae'r gwerthoedd yn seiliedig ar amserlenni'n parhau yn debyg iawn i'r hyn a welir ar hyn o bryd, ac nid yw'n glir a yw darpariaeth ar lefelau cyfredol yn ddymunol neu'n effeithlon. Mae ein modelu, sy'n seiliedig ar uchafu elw, yn awgrymu bod yr arian sydd ei angen i ddarparu'r lefel gyfredol o DGC oddeutu £225 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd - ac mai dim ond ychydig uwch fydd y ffigur hwn yn 2012.

## 3.2 Canfod ateb

Yn amlwg, mae yna ansicrwydd yn perthyn i'r ddau fodel o ran tueddiadau yn yr amgylchedd economaidd ehangach a'r diwydiant hysbysebu. Credwn fod angen oddeutu £250 miliwn o arian gan ffynonellau heblaw'r BBC, yn hytrach na'r £330 miliwn - £420 miliwn y mae Ofcom yn ei gynnig, ond rydym ni ac Ofcom yn glir bod peryglon gwirioneddol i newyddion rhanbarthol, darpariaeth plant ac - i raddau llai - newyddion cenedlaethol a rhai rhaglenni ffeithiol arbenigol.

Er ei bod yn amlwg bod yn rhai i ni wneud rhywbeth, mae'n bwysig y dylai unrhyw ymyriadau yn y dyfodol fod yn ateb cynaliadwy a hirdymor ar gyfer DGC. I wneud hynny, mae angen i ni ddychwelyd at wraidd y materion hyn – sef anghenion cynulleidfaoedd. Mae'n rhaid i gynulleidfaoedd fod yn ganolog i unrhyw ateb.

Mae adran nesaf yr ymateb hwn yn cyflwyno ein barn ar dystiolaeth gan gynulleidfaoedd, a'r oblygiadau ar gyfer swyddogaethau parhaus ITV, Channel 4, Five a'r BBC wrth ddarparu DGC yn y dyfodol.

# 4 Swyddogaeth barhaus ar gyfer ITV, Channel 4 a Five

Mae Ofcom wedi dangos fod y gynulleidfa yn cefnogi darpariaeth DGC gan ffynonellau heblaw'r BBC, wedi trafod rhinweddau a chwmpas swyddogaethau parhaus ITV1, Five a Teletext, a chynnig swyddogaeth estynedig i Channel 4. Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn glir y bydd yn rhaid i'r DGCau cyfredol barhau i gyflawni swyddogaeth barhaus ac unigryw os yw DGC am ddarparu'r hyn y mae cynulleidfaoedd yn dymuno ei gael.

Mae Ofcom wedi awgrymu bod cystadleuaeth i'r BBC o fodd i gynulleidfaoedd mewn tair ffordd: drwy ddarparu amrywiaeth o leisiau a safbwyntiau, drwy wella cyrhaeddiad ac effaith cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, a thrwy weithredu fel sbardun cystadleuol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicr bod y ddarpariaeth y tu hwnt i'r BBC yn cael ei werthfawrogi gan gynulleidfaoedd a bod yr holl DGC cyfredol, a'r farchnad ehangach, yn parhau i wneud cyfraniadau pwysig. Fodd bynnag, nid ydym wedi'n hargyhoeddi eto bod llu o wahanol ddarparwyr yn darparu amrywiaeth o safbwyntiau, gwell cyrhaeddiad ac effaith, a sbardun cystadleuol. Mae'n bwysig deall hyn, gan ei fod yn cynorthwyo i weld ble mae angen ymyriadau fwyaf yn y dyfodol

Mae'r gynulleidfa yn amlwg yn cefnogi cefnogaeth darpariaeth y tu hwnt i'r BBC. Er enghraifft, datgelodd ymchwil ansoddol a gynhaliwyd ar ran y BBC bod pobl yn cydnabod fod amrywiaeth o ddarparwyr DGC yn cyfrannu sawl gwahanol naws ac, mewn egwyddor, bod cystadleuaeth yn cadw'r BBC ar flaenau ei thraed

Fodd bynnag, mae'r farn ynglŷn â'r angen am ddarpariaeth y tu hwnt i'r BBC yn amrywio'n sylweddol yn ôl mathau o raglenni: mae 52% yn meddwl ei bod hi'n hanfodol yn eu cartrefi nhw bod ITV, Channel 4 neu Five yn parhau i ddangos newyddion cenedlaethol neu ryngwladol yn y dyfodol; ac mae 47% yn credu'r un fath am newyddion o'u rhan nhw o'r DU. Ond, mae mathau o raglenni eraill sydd mewn perygl, fel rhaglenni am y celfyddydau a cherddoriaeth glasurol a chrefydd yn cael blaenoriaeth lawer is, er enghraifft: 9% yn unig sy'n ystyried bod parhau i ddarparu rhaglenni crefyddol yn hanfodol[1]. O safbwynt y gynulleidfa felly, mae'r angen i ymyrryd yn amrywio.

Hefyd, rydym wedi canfod bod parodrwydd y gynulleidfa i dalu am fathau o raglenni DGC sydd mewn perygl yn debygol o fod yn llawer llai na'r awgrymodd ymchwil gynharach a gynhaliwyd gan Ofcom. Datgelodd ymchwil a gyhoeddwyd gan Ofcom bod aelwydydd yn barod i dalu £2.92 ar gyfartaledd, er mwyn cadw darpariaeth mathau o raglenni DGC y tu hwnt i'r BBC. Mae'r ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer y BBC yn awgrymu y bydd y swm y byddai cynulleidfaoedd yn barod i'w dalu am y mathau o raglenni sydd mewn perygl yn debygol o fod oddeutu £1.28 yr aelwyd y mis. Mae'n debyg mae'r sefyllfa economaidd sydd ohoni sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth hwn.

[1] Mae hyn yn seiliedig ar yr holl oedolion sydd â theledu (98% o ymatebwyr yn ein harolwg meintiol)

## 4.1 Anghenion cynulleidfaoedd

### 4.1.1 Darpariaeth y tu hwnt i'r BBC

Wrth baratoi'r cyflwyniad hwn, rydym wedi defnyddio tystiolaeth o'n rhaglen ddiweddaraf o ymchwil i gynulleidfaoedd, sy'n cynnwys tri darn o waith ymchwil ar wahân, a ddadansoddwyd ac a adroddwyd arnynt gan yr ymgynghorwyr annibynnol Human Capital, yn defnyddio data a gasglwyd gan Ipsos MORI a The Knowledge Agency. Cyflawnwyd y gwaith rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2008, ac roedd yn cynnwys ymarfer ansoddol a dau arolwg meintiol mwy ledled y DU. Mae manylion llawn methodolegau a chanfyddiadau ar gael yn yr atodiad i'r ymchwil i gynulleidfaoedd.

Mae tystiolaeth a gasglwyd mewn ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer Ofcom, yn ogystal â gwaith cynharach y BBC yng Nghyfnod un [6], yn awgrymu bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi cyfraniadau unigryw gwahanol sefydliadau. Roedd y rhai a gymerodd ran yn ymchwil ansoddol diweddaraf y BBC hefyd yn gallu gweld y manteision o gael amrywiaeth o ddarparwyr DGC, gan eu bod yn teimlo eu bod yn cyfrannu naws wahanol, ac oherwydd y byddai'r gystadleuaeth yn cadw'r BBC ar flaenau ei thraed. Lleiafrif bach yn unig a gredai mai'r BBC yn unig ddylai fod yn gyfrifol am DGC yn y dyfodol.

Mae cynulleidfaoedd hefyd yn dweud wrthym ni fod y BBC ar ei phen ei hun yn darparu amrywiaeth eang o leisiau ac arddulliau yn ei holl rhaglenni. Er bod ei chyrhaeddiad darlledu'n gorgyffwrdd yn naturiol gyda rhaglenni darlledwyr mawr eraill, fel conglfaen y system DGC, mae portffolio cyffredinol gwasanaethau BBC yn gallu cyrraedd cyfrannau uwch o bob grŵp yn sgil ei maint, ei chwmpas a'i hamrywiaeth o raglenni.

Yn ein hymchwil meintiol i gynulleidfaoedd, gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau roeddynt yn cytuno neu'n anghytuno gyda dau ddatganiad am amrywiaeth o wahanol ddarlledwyr. Roedd y datganiadau fel a ganlyn:

- Mae'r <darlledwr hwn> yn darparu rhywbeth i bawb
- Mae gan y < darlledwr hwn > wahanol arddulliau ar ei sianelau, rhaglenni a gwasanaethau gwahanol

Roedd llawer yn cytuno gyda'r ddau ddatganiad hyn am y BBC. Cytunodd 78% o ymatebwyr bod y BBC yn darparu rhywbeth i bawb, a chytunodd 77% bod gan y BBC wahanol arddulliau ar ei sianelau, rhaglenni a gwasanaethau gwahanol.

Er bod llawer yn cytuno gyda'r datganiadau hyn am ddarlledwyr eraill hefyd, roedd llai o ymatebwyr yn cytuno gyda'r un datganiadau wrth ystyried darlledwyr ar wahân i'r BBC. ITV oedd y darlledwr nesaf o ran cytuno â'r ddau ddatganiad: cytunodd 71% bod y darlledwr hwn yn darparu rhywbeth i bawb, a chytunodd 64% fod yna amrywiaeth o arddulliau ar ei wahanol raglenni a gwasanaethau. Y ffigurau cytuno ar gyfer y datganiadau o ran Channel 4 oedd 56% a 57%.


---

[6] *Ofcom's second review of PSB, Phase one: The Digital Opportunity and Public Service Broadcasting Now and in the Future – Audience Attitudes*, Adroddiad gan Human Capital ar gyfer y BBC, Mehefin 2008

Roedd y rhai a gymerodd ran yn ymchwil ansoddol y BBC yn gallu rhoi enghreifftiau o raglenni a gwasanaethau y maent yn eu gwylio, gwrando arnynt a'u defnyddio, sy'n "wasanaeth cyhoeddus" yn eu barn nhw. Roedd llawer o'r rhain gan y BBC, ond roedd digonedd o enghreifftiau gan DGCau eraill a oedd hefyd yn cael eu cydnabod am eu cyfraniadau cryf ac unigryw. Yn ogystal â gwirio enw rhaglenni penodol gan amrywiaeth o ddarlledwyr, siaradodd cynulleidfaoedd am werth cyfraniadau ehangach i wasanaeth cyhoeddus, fel newyddion a gwybodaeth annibynnol am ddim, rhaglenni gyda ffocws lleol neu wedi'u cynhyrchu'n lleol, rhaglenni plant o ansawdd, a rhwydweithiau radio cenedlaethol y BBC.

Er mwyn archwilio'r cysyniad o gefnogaeth cynulleidfaoedd i ddarpariaeth DGC y tu hwnt i'r BBC, defnyddiodd ymchwil meintiol ar gyfer y BBC gyfres gydgysylltiol o gwestiynau. Yn gyntaf, edrychodd ar safbwyntiau cynulleidfaoedd ar y mathau o raglenni y dylid cael eu dangos ar ITV1, Channel 4 neu Five yn ogystal â'r BBC. Gofynnwyd y cwestiwn hwn o safbwynt aelwydydd. Ar gyfer pob genre, gofynnwyd i ymatebwyr nodi a oedd hi'n hanfodol i'r math hwn o raglen gael ei ddangos at DGCau masnachol yn ogystal â'r BBC, a oedd eu haelwydydd angen hyn, neu a oeddynt yn credu nad oedd yn angenrheidiol. Bwriad y cwestiwn hwn oedd mesur dewisiadau cyfredol o ran darpariaeth y tu hwnt i'r BBC. Gofynnwyd i ymatebwyr am eu safbwyntiau ar amrywiaeth eang o fathau o raglenni (nid y rhai a oedd mewn perygl yn unig). Mae'r siart isod yn dangos cyfran yr ymatebwyr a roddodd bob ateb.

**Ffigur 3 – yr angen i ddarparu mathau o raglenni ar DGCau masnachol**



[Graph text]
Q9a Thinking about…….= **C9a Gan feddwl am y mathau o raglenni rydych chi a'ch aelwyd yn eu gwylio, pa rai fyddech chi am i ITV1, Channel 4 neu Five eu dangos yn ogystal â'r BBC yn y dyfodol?**
My household would feel it is essential = **Byddai fy aelwyd yn credu ei fod yn hanfodol**
My household might need this = **Efallai y byddai fy aelwyd angen hyn**
My household would not need this = **Ni fyddai fy aelwyd angen hyn**
Don't know = **Ddim yn gwybod**
% essential and % might need = **% hanfodol a % ei angen efallai**
National and international news = **Newyddion cenedlaethol a rhyngwladol**
News from your part of the UK = **Newyddion o'ch rhan chi o'r DU**
Films = **Ffilmiau**
UK made drama = **Dramâu a gynhyrchwyd yn y DU**
UK made comedy = **Comedi a gynhyrchwyd yn y DU**
Sport = **Chwaraeon**
History documentaries = **Rhaglenni dogfen hanesyddol**
UK made general interest doc…… = **Rhaglenni dogfen diddordeb cyffredinol a rhaglenni ffeithiol eraill a gynhyrchwyd yn y DU**
Current affairs = **Materion cyfoes**
Other programmes about….. = **Rhaglenni eraill am eich rhan chi o'r DU**
Entertainment = **Adloniant**
UK made soaps = **Operâu sebon sydd wedi'u gwneud yn y DU**
UK made children's programmes = **Rhaglenni plant a gynhyrchwyd yn y DU**
Science programmes = **Rhaglenni gwyddoniaeth**
UK made lifestyle , hobbies….. = **Rhaglenni ffordd o fyw, arferion a hamdden a gynhyrchwyd yn y DU**
Arts anc classical music programmes = **Rhaglenni celfyddydau a cherddoriaeth glasurol**
Factual formats and reality = **Fformatau ffeithiol a realiti**
Religious programmes = **Rhaglenni crefyddol**

At risk genre = **Genre mewn perygl**
Unweighted base: 1574, all respondents with TV = **Sylfaen heb ei bwysoli: 1574, pob ymatebwr â theledu**

*Ffynhonnell: Arolwg meintiol o 4,577 o oedolion, a adroddwyd gan Human Capital (Rhagfyr 08)*

Credai'r mwyafrif o ymatebwyr (84%) ei bod hi'n hanfodol i o leiaf un genre o'r 18 sydd wedi'u cynnwys yn yr ymchwil gael ei ddarparu gan ITV1, Channel 4 neu Five yn ogystal â'r BBC yn y dyfodol. Nodwyd angen hanfodol o'r fath ar gyfer newyddion cenedlaethol a rhyngwladol (52%) a newyddion rhanbarthol (47%). Gydag ambell i genre neu fath o raglen, ystyriwyd bod darpariaeth gan DGC masnachol yn ogystal â'r BBC yn hanfodol gan gyfrannau cymharol isel o'r gynulleidfa, er enghraifft rhaglenni crefyddol (9%) a rhaglenni am y celfyddydau / cerddoriaeth glasurol (14%). Er yn llai angenrheidiol ar gyfer y sampl yn gyffredinol, roed bron i hanner y rhieni gyda phlant gartref yn ystyried bod rhaglenni plant sydd wedi'u cynhyrchu yn y DU yn hanfodol, sef eu hail flaenoriaeth uchaf ar ôl newyddion cenedlaethol a rhyngwladol.

Mewn cwestiynau dilynol, canolbwyntiodd yr ymchwil ar yr ymatebwyr hynny a oedd nodi angen hanfodol am fath benodol o raglen. Am bob math o raglen lle credai'r ymatebwyr bod darpariaeth y tu hwnt i'r BBC yn hanfodol, gofynnwyd iddynt pam eu bod yn credu hynny. Wrth fwrw golwg gyffredinol ar ymatebion, roedd oddeutu un o bob tri o'r rhai hynny a oedd am gael darpariaeth y tu hwnt i'r BBC yn dweud mai'r rheswm am hynny oedd eu bod yn gwerthfawrogi amrywiaeth o ddulliau neu leisiau. Roedd oddeutu traean arall am gael darpariaeth ehangach oherwydd eu bod wedi arfer

troi at ddarlledwr neu ddarlledwyr penodol am fathau penodol o raglenni, ac roedd y traen arall yn dweud hynny am eu bod am dderbyn mwy o raglenni.

Mae'r amrywiadau yn y lefelau o angen am ddarpariaeth barhaus y tu hwnt i'r BBC, a'r amrywiadau yn y rhesymau dros hynny, yn awgrymu bod angen meddwl am ystyriaethau ehangach nag ymyriadau lluosog yn unig ym mhob genre.

### 4.1.2 Parodrwydd i dalu

Felly ar ôl pwyso a mesur yr hyn y mae cynulleidfaoedd yn ei werthfawrogi a pham, y cam nesaf yw archwilio'r hyn y maent yn fodlon talu amdano. Awgrymodd ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer Ofcom - a gynhaliwyd cyn i'r economi ddirywio - bod 78% o ymatebwyr yn gwerthfawrogi rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus ar ITV1, Channel 4 a Five ddigon i fod yn barod i dalu amdanynt, yn ogystal â ffi'r drwydded ar gyfer y BBC. (Y ffigur o safbwynt dinasyddion oedd 74%). Dangosodd canlyniadau Ofcom bod aelwydydd yn barod i dalu hyd at £2.92 yr aelwyd ar gyfartaledd (cyfartaledd yr holl rai hynny yn y sampl).

Rydym wedi gwerthfawrogi'r cyfle i gynnal trafodaethau adeiladol ag Ofcom am yr heriau methodolegol sy'n rhan gynhenid o ymchwil i barodrwydd i dalu. Rydym yn gwerthfawrogi bod hwn yn faes anodd i'w asesu drwy unrhyw fethodoleg ymchwil, o ystyried cymhlethdod ac ansicrwydd yr hyn sydd mewn perygl. Mae hefyd yn glir y bydd y math hwn o ymchwil wastad yn cynnwys nifer o benderfyniadau ymarferol anodd ar sut i gyflwyno gwybodaeth i ymatebwyr.

Addaswyd ein hymchwiliad o fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y Work Foundation wrth asesu parodrwydd i dalu am y BBC ar ran yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon[7]. Roedd y dull hwn yn seiliedig ar lunio casgliadau o ymarfer dyrannu ar sail pwyntiau i asesu gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd o'r mathau gwahanol o raglenni, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl.

Fel gyda'r ymchwil a gynhaliwyd gan Ofcom, dangosodd y dadansoddiad hwn bod pobl yn barod i gefnogi elfennau o ddarpariaeth DGC y tu hwnt i'r BBC, er yn ein hymchwil ddiweddaraf roedd y parodrwydd cyffredinol i dalu am fathau o raglenni sydd mewn perygl yn llai na hanner yr amcangyfrif yn ymchwil Ofcom - cyfartaledd o £1.28 y mis ar sail yr holl ymatebwyr.

O'r ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer y BBC mae hefyd yn glir bod parodrwydd i dalu wedi'i gyfyngu i fathau penodol o raglenni. Mae rhaglenni ffeithiol a newyddion cenedlaethol a rhyngwladol yn cyfrif am dros hanner parodrwydd defnyddwyr i dalu am fathau o raglenni sydd mewn perygl, er y gofyniad mwy cyfyngedig i ymyrryd yn y meysydd hyn. Roedd y mathau hyn o raglenni yn cyfrif am £0.73 y mis o'r £1.28 a ddyrannwyd i bob genre sydd mewn perygl.

Mae'n debyg y bydd nifer o resymau am yr anghysondeb mewn lefelau cyffredinol rhwng ein gwaith ni a gwaith Ofcom – mae ymchwil parodrwydd i dalu yn anodd ac yn gymhleth, a bydd dulliau a'r ffordd y mae cwestiynau'n cael eu geirio yn amlwg yn

[7] Willingness to pay for the BBC during the next charter period: Adroddiad gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (The Work Foundation, 2006)

effeithio ar y canlyniadau.  Fodd bynnag, rydym wedi sylwi ar nifer o wahaniaethau posibl.

Roedd y ddau ddarn o waith ymchwil yn cymryd agwedd wahanol at y mathau o raglenni a oedd am gael eu dadansoddi.  Roedd yr ymchwil a gomisiynwyd ar gyfer y BBC yn cynnwys y mathau o raglenni mewn perygl yn unig yn ei dadansoddiad.  Yn yr ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer Ofcom, roedd pob genre DGC wedi'u cynnwys fel genre DGC lle aseswyd parodrwydd i dalu, gan gynnwys Drama a Chomedi o'r DU ar Channel 4.  Dim ond ffracsiwn bach iawn o'r gwariant yn y mathau hyn o raglenni a nodir i fod mewn perygl yn asesiad Ofcom.

Mae'r amgylchiadau economaidd newidiol yn y DU hefyd yn debygol o fod wedi effeithio ar ymatebion cynulleidfaoedd i barodrwydd i dalu am ddarpariaeth DGC y tu hwnt i'r BBC.  Yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol o Hyder Defnyddwyr[8], cynyddodd y gyfran o oedolion a oedd yn ystyried y sefyllfa economaidd sydd ohoni yn "wael" o 25% ym mis Ionawr 2008 i 52% ym mis Mai 2008.  Erbyn mis Tachwedd 2008, roedd y ffigur yn 76%.  Mae ffigurau o arolwg olrhain MORI Ipsos o faterion sy'n wynebu Prydain yn dangos bod 32% o ymatebwyr yn enwi'r economi fel mater ym mis Mehefin 2008 (pan gynhaliodd Ofcom eu gwaith maes), ond roedd y ffigur wedi codi i 62% erbyn mis Tachwedd pan gyflawnwyd y gwaith maes ar gyfer yr astudiaeth hon.

[8] http://www.nationwide.co.uk/consumer_confidence/data_download/default.htm

# 5 Arian

Rydym yn falch o weld ffocws newydd ar effeithlonrwydd a gwerth am arian yn adroddiad Cyfnod dau Ofcom. Rydym yn amlwg yn cefnogi'r angen i ymyrryd i ddiogelu dibenion a nodweddion DGC, ond byddem yn dadlau'n ffyrnig bod angen gwario a defnyddio unrhyw arian cyhoeddus a chymorth o unrhyw fath yn effeithlon a gwneud y defnydd gorau o bob opsiwn. Yn yr achos hwn, mae'n bwysig iawn gan fod ymchwil y BBC yn awgrymu nad yw pobl mor barod i dalu am ddarpariaeth luosog DGC.

Awgrymwyd ffi'r drwydded fel ffynhonnell arian bosibl ar gyfer DGC y tu hwnt i'r BBC. O ystyried mai blwyddyn yn unig o setliad cyfredol ffi'r drwydded sydd wedi mynd, mae'n llawer rhy gynnar i ddyfalu am ofynion arian ffi'r drwydded yn 2013. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, nid oes sicrwydd y bydd lefel gyffredinol ffi'r drwydded o 2012-13 yn cael ei chynnal, nac y bydd yr elfen sy'n cael ei neilltuo ar hyn o bryd er mwyn cynorthwyo i ddarparu chweched diben cyhoeddus y BBC yn parhau.

Mae'r cysylltiad rhwng ffi'r drwydded a'r BBC yn un cymhleth. Awgrymodd ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer Ofcom nad oes llawer o bobl yn ymwybodol o'r hyn y mae ffi'r drwydded yn talu amdano, a daeth i'r casgliad na fyddai gan y mwyafrif o bobl wrthwynebiad mewn egwyddor i ffi'r drwydded ariannu darlledwyr eraill. Datgelodd mai 44% yn unig o bobl oedd yn hollol ymwybodol mai ffi'r drwydded sy'n ariannu'r BBC. I'r gwrthwyneb, datgelodd arolwg y BBC bod 70% o'r cyhoedd yn crybwyll y BBC pan ofynnwyd pa ddarlledwyr sy'n cael eu hariannu gan ffi'r drwydded, ac rydym yn priodoli hyn i gwestiwn mwy pwrpasol. Fel Ofcom, datgelodd ein hymchwil bod ymwybyddiaeth yn sgil anogaeth yn codi ymhellach, i 86%.

Mae ymchwil ansoddol a gynhaliwyd ar gyfer y BC hefyd yn dod i'r casgliad bod arian ffi'r drwydded yn arwain at fanteision pwysig i'r cyhoedd: sicrhau gwasanaethau o ansawdd, rhywbeth i bawb, a chadw'r BBC yn rhydd o hysbysebion. Yn ymchwil meintiol y BBC, cytunodd y mwyafrif llethol o ymatebwyr (84%) y dylai'r BBC fod yn atebol i'r cyhoedd o ran sut y mae'n gwario ei hincwm. Roedd hyn yn llawer uwch nag ar gyfer darlledwyr eraill. Pan ofynnwyd a ddylai DGC, a ariannir yn fasnachol, fod yn atebol i'r cyhoedd o ran sut maent yn gwario eu hincwm, cytunodd 46% y dylai hyn fod yn wir ar gyfer Five, 49% ar gyfer Channel 4, a 51% ar gyfer ITV.

Wrth feddwl am ganlyniadau posibl arian ffi'r drwydded ar gyfer darlledwyr eraill, mae'n ddiddorol sylwi, er bod y niferoedd yn isel, pan fo ymatebwyr yn credu fod ITV1 neu Channel 4 *eisoes* yn derbyn incwm ffi'r drwydded, yna maent yn fwy tebygol o gytuno y dylai'r darlledwyr hyn fod yn atebol i'r cyhoedd am sut maent yn gwario eu hincwm. Er enghraifft, mae 75% o'r rhai hynny sy'n credu eu bod eisoes yn derbyn arian ffi'r drwydded yn credu y dylai ITV1 fod yn atebol i'r cyhoedd, o gymharu â 49% o'r rhai hynny nad ydynt yn credu bod ITV1 yn cael ei ariannu fel hyn. Mae patrwm tebyg i'r farm am Channel 4 hefyd.

O ran defnyddio rhan o ffi'r drwydded i ariannu mathau o raglenni sydd mewn perygl ar DGCau masnachol, mae ymchwil Ofcom ei hun yn awgrymu pe bai arian dros ben, y byddai'n well gan y cyhoedd (63%) weld yr arian yn cael ei ddychwelyd iddynt ar ffurf gostyngiad yn ffi'r drwydded.

Yn ogystal ag ailddosbarthu ffi'r drwydded, mae Ofcom wedi awgrymu defnyddio treth diwydiant. Fodd bynnag, mae'r ddau opsiwn yn cynnig rhannu arian DGC cyfredol yn hytrach na'i gynyddu. Hefyd, awgrymodd Ofcom y gallai trethi newydd sicrhau'r arian, ond mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni'n golygu bod hyn yn ateb anodd ei weithredu. Fodd bynnag, ymddengys bod asedau rheoleiddiol a hunangymorth yn cynnig cyfleoedd pwysig ar gyfer ariannu DGC yn y dyfodol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn credu bod gan y BBC gyfraniad pwysig i'w wneud o ran darparu atebion arloesol i'r problemau sy'n wynebu DGC. Ein her i Fwrdd Gweithredol y BBC yn ystod cyfnod un o adolygiad Ofcom oedd datblygu cynigion ar gyfer partneriaethau cynaliadwy. Y rheswm wrth wraidd yr her hon yw y bydd DGC cynaliadwy ac effeithiol yn yr hirdymor yn gofyn am ddull gwahanol. Mae'n rhaid i atebion weithio gyda llif newidiadau yn y farchnad a cheisio diogelu DGC drwy ganfod ffynonellau gwerth newydd, yn hytrach nag ailddyrannu arian cyfredol yn unig. Credwn y gallai'r partneriaethau cynaliadwy cywir gynnig ateb hirdymor a strategol i'r problemau sy'n wynebu DGC, yn seiliedig ar gryfderau sefydliadau penodol y mae'r cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Drwy ddylanwadu ar swyddogaeth hollbwysig y BBC ym maes darlledu rydym yn ceisio darparu manteision posibl i'r DGC masnachol yn ogystal â'r sector darlledu ehangach , gan atgyfnerthu safle'r DU fel un o economïau creadigol cryfaf y byd. Ar yr un pryd mae'n bwysig nad yw unrhyw atebion yn lleihau'r gwasanaeth a ddarperir i gynulleidfaoedd gan y BBC. Rhaid newid agweddau sylfaenol ac anghofio'r syniad o'r BBC fel ffynhonnell ddi-ben-draw o adnoddau, a chwilio am bob cyfle i weithio mewn partneriaethau agosach â darlledwyr eraill. Mae hefyd yn gyfle gwych i ddarparu'r dibenion cyhoeddus yn well ac felly cynnig gwell gwerth cyhoeddus i gynulleidfaoedd.

Heddiw, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cyhoeddi'r partneriaethau arfaethedig hynny ac mae'r Ymddiriedolaeth yn awr am dderbyn sylwadau cynulleidfaoedd a phartneriaid posibl.

## 5.1 Y defnydd o ffi'r drwydded

Mae ffi'r drwydded wedi cael llawer o sylw gan Ofcom ac eraill, ar sail yr awgrym bod yna swm dros ben o ffi'r drwydded neu 'warged trosglwyddo ar gael ar ôl 2012. Mae'n bwysig deall y cysyniad hwn yn iawn. Mae'r llythyr gan y Llywodraeth i'r BBC sy'n amlinellu setliad cyfredol ffi'r drwydded yn nodi'n glir y dylid ystyried 2012-13 fel blwyddyn gyntaf setliad arian newydd, nid fel parhad o'r un gyfredol.[9] O ystyried mai blwyddyn yn unig sydd ers dechrau setliad cyfredol ffi'r drwydded, mae'n llawer rhy gynnar i ddyfalu am y gofynion ar arian ffi'r drwydded yn 2013. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni nid oes sicrwydd y bydd lefel gyffredinol ffi'r drwydded o 2012-13 yn cael ei chynnal, nac y bydd yr elfen sy'n cael ei neilltuo ar hyn o bryd i gynorthwyo i ddarparu chweched diben cyhoeddus y BBC yn parhau.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod y setliad yn 2006 yn neilltuo incwm yn benodol i gefnogi chweched diben cyhoeddus y BBC drwy'r cynllun helpu i drosglwyddo i ddigidol a

[9] Llythyr gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Digital UK.  Ni chafodd ei neilltuo i gynorthwyo DGC yn fwy cyffredinol, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn credu na ddylid casglu arian gan y cyhoedd os yw'r BBC yn gofyn am ffi trwydded is yn 2013.  Ymddengys bod talwyr ffi'r drwydded yn cefnogi hyn, gydag ymchwil Ofcom ei hun yn awgrymu bod 63% o gynulleidfaoedd am weld unrhyw arian sydd dros ben yn cael ei ddychwelyd iddynt ar ffurf gostyngiad yn ffi'r drwydded pe na bai'r BBC angen yr arian i gynorthwyo gyda'i diben digidol.

### 5.1.1 Agweddau cynulleidfaoedd at ffi'r drwydded a'r BBC

Gan fod ffi'r drwydded wedi'i chynnwys yn y drafodaeth fel ffynhonnell gyllid a allai fod yn atyniadol ar gyfer DGCau masnachol, rydym wedi cynnal gwaith ymchwil ansoddol a meintiol pellach, sy'n archwilio natur y cysylltiad rhwng cynulleidfaoedd, y BBC a ffi'r drwydded.  Mae'r ymchwil yn amlygu sut mae'r cyhoedd yn ystyried y canlyniadau posibl o ddefnyddio ffi'r drwydded i ariannu darlledwyr eraill y tu hwnt i'r BBC.

Credwn fod y cysylltiad rhwng ffi'r drwydded a'r BBC yn un cymhleth.  Mewn ymchwil ansoddol a gynhaliwyd ar gyfer y BBC, pan roedd cyfranogwyr yn ystyried am beth roedd ffi'r drwydded yn ei dalu yn y lle cyntaf, roedd y mwyafrif yn credu bod talu ffi'r drwydded yn rhoi hawl iddynt i weld popeth ar y teledu.  Fodd bynnag, roedd gan y mwyafrif llethol o gyfranogwyr hefyd ymwybyddiaeth eang o'r hyn y mae refeniw ffi'r drwydded yn talu amdano mewn gwirionedd (ariannu amrywiaeth o wasanaethau'r BBC ar draws gwahanol gyfryngau).  Roedd yn amlwg bod pobl yn deall y ddau syniad yma ar y cyfan.

Wrth edrych ar ymwybyddiaeth yn ôl nifer, awgrymodd ymchwil a gyhoeddwyd gan Ofcom mai 44% yn unig o bobl a gyfwelwyd sy'n gallu nodi bod ffi'r drwydded yn talu am wasanaethau'r BBC heb eu hannog.  I'r gwrthwyneb, mae ymchwil y BBC yn awgrymu cyfran uwch, gyda 70% yn gallu crybwyll bod y BBC yn cael ei hariannu gan ffi'r drwydded.  Heb os nac oni bai, y ffordd y mae'r cwestiwn wedi'i eirio yw'r rheswm dros yr anghysondeb hwn, gan fod Ofcom wedi defnyddio'r cwestiwn 'Ar gyfer beth y defnyddir arian Ffi'r Drwydded yn eich barn chi?', lle defnyddiodd ein hastudiaeth ni ddull gyda mwy o ffocws drwy ofyn yn benodol i ymatebwyr nodi'r 'darlledwr neu ddarlledwyr' y mae arian ffi'r drwydded yn ei ariannu.

Fodd bynnag, wrth annog ymwybyddiaeth yn gyffredinol, sy'n fesur llai amrywiol neu ddadleuol, dangosodd ymchwil y BBC bod 86% yn gwybod bod ffi'r drwydded yn talu am y BBC, gyda 87% yn nodi hynny yn y dadansoddiad gan Ofcom.  Edrychodd yr ymchwil ddiweddaraf ar gyfer y BBC ar ymwybyddiaeth pobl ynglŷn ag a oedd gwasanaethau unigol y BBC yn derbyn arian ffi'r drwydded.  Dangosodd yr ymchwil mai'r categori gwasanaeth a nodwyd fwyaf oedd BBC One a BBC Two (a ddewiswyd gan 86% o ymatebwyr), ond roedd tua dau o bob tri ymatebwr (67%) yn cydnabod bod BBC Three a BBC Four hefyd yn cael eu hariannu gan ffi'r drwydded (yn codi i 86% ymhlith gwylwyr rheolaidd sianeli teledu digidol y BBC).  Roedd llai o bobl yn ymwybodol bod gwasanaethau radio ac ar-lein y BBC yn cael eu hariannu gan ffi'r drwydded, er bod 50% yn ymwybodol o hynny ar ôl cael eu hannog, ac eto roedd y ffigurau hyn yn uwch ymysg defnyddwyr mwy rheolaidd.

### 5.1.2 Goblygiadau arian cyhoeddus uniongyrchol ar gyfer darlledwyr eraill

Mae achos diweddar Ross/Brand wedi dangos yn glir y disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag arian cyhoeddus. Sbardunodd darllediad annerbyniol drafodaeth eang am bob lefel o'r BBC; ei diben, cryfder ei systemau golygyddol, cymhwysedd ei rheolwyr, a pha mor gyflym yr aethpwyd i'r afael â'r mater.

Yr ail faes y mae'n bwysig i ni ei ddeall yw'r hyn y mae ffi'r drwydded yn ei olygu i gynulleidfaoedd. Mae ymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yn credu bod derbyn arian ffi'r drwydded yn arwain at oblygiadau eang i'r BBC. Er enghraifft, yn yr ymchwil ansoddol a gynhaliwyd ar gyfer y BBC, teimlwyd fod arian ffi'r drwydded yn bwysig i sicrhau ansawdd ac amrywiaeth rhaglenni'r BBC (gan sicrhau ei bod yn darparu rhywbeth i bawb), ac i gadw hysbysebion masnachol oddi ar y BBC.

Mae'n amlwg hefyd yn yr ymchwil meintiol bod y disgwyliadau o ran atebolrwydd i'r cyhoedd yn uwch ar gyfer y BBC nag ar gyfer y prif ddarlledwyr eraill. Roedd ymatebwyr yn llawer mwy tebygol o ddweud y dylai'r BBC fod yn atebol i'r cyhoedd o ran sut mae'n gwario ei hincwm, o gymharu â'r graddau y maent yn eu rhoi i ddarlledwyr eraill. Dywedodd 84% o ymatebwyr eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno gyda'r datganiad hwnnw ar gyfer y BBC, a 4% yn unig oedd yn anghytuno. Roedd ymatebion ar gyfer darlledwyr eraill (ITV, Channel 4, Five a Sky) yn llawer is ac yn debyg iawn i'w gilydd. Pan ofynnwyd a ddylai'r DGCau sy'n cael eu hariannu'n fasnachol fod yn atebol i'r cyhoedd o ran sut maent yn gwario'u hincwm, cytunodd 46% y dylai Five fod yn atebol, cytunodd 49% y dylai Channel 4 fod yn atebol a chytunodd 51% y dylai ITV1 fod yn atebol.

Dengys ein dadansoddiadau bod disgwyliadau pobl am y BBC yn cynyddu wrth iddynt wybod mwy am yr hyn y mae ffi'r drwydded yn talu amdano. Yn benodol, po fwyaf o fathau o wasanaethau'r BBC y credai'r ymatebwyr bod ffi'r drwydded yn talu amdanynt, y mwyaf roeddynt yn cytuno y dylai'r BBC fod yn atebol i'r cyhoedd o ran sut mae'n gwario ei incwm. O'r bobl nad oedd yn gwybod fod unrhyw wasanaethau'r BBC yn derbyn arian o ffi'r drwydded, cytunodd 62% y dylai'r BBC fod yn atebol i'r cyhoedd o ran sut mae'n gwario ei hincwm. O ran yr ymatebwyr a allai nodi tri math o wasanaethau'r BBC neu fwy y talwyd amdanynt gyda ffi'r drwydded, roedd 90% yn cytuno y dylai fod yn atebol.

Wrth ystyried canlyniadau posibl arian ffi'r drwydded ar gyfer darlledwyr eraill, mae'n ddiddorol sylwi, er bod y niferoedd absoliwt yn isel, pan fo ymatebwyr yn credu bod ITV1 neu Channel 4 *eisoes* yn derbyn incwm ffi'r drwydded, yna maent yn fwy tebygol o gytuno y dylai'r darlledwyr hyn fod yn atebol i'r cyhoedd, o gymharu â 49% o'r rhai hynny nad ydynt yn credu bod ITV yn cael ei ariannu fel hyn. Mae patrwm tebyg i'r farn am Channel 4 hefyd.

Mae'r lefel gynyddol o archwilio sy'n cyd-fynd â derbyn arian cyhoeddus hefyd yn debygol o newid natur a gallu cyfundrefnol derbynyddion posibl. Mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol iawn i Channel 4, lle gallai cyfres ehangach o ofynion rhaglenni a chanlyniadau DGC, ynghyd ag arolygiaeth reoleiddiol gynyddol a disgwyliadau uwch y gynulleidfa, amharu ar ei allu i ddarparu rhai o'i nodweddion mwyaf sylfaenol a llwyddiannus - fod bod yn flaengar, amgen a mentrus.

Wrth edrych yn benodol ar elfen o gystadleuaeth, a drafodir yn fanylach yn ddiweddarach yn yr ymateb hwn, er mwyn rhoi cyfle i arloesed a buddsoddiad, bydd

angen i gontractau fod yn ddigon hir i ddarparu sicrwydd. Mae Ofcom yn rhagweld y byddai rhai contractau yn para am gyfnod cymharol hir. Gan hynny, efallai y bydd rhai o gostau a beichiau'r model cyllid cystadleuol yn cael eu hysgafnhau, gan y byddai darparwyr yn gallu cynllunio ar gyfer buddsoddiad (i raddau) a byddai'r costau ymgeisio yn cael eu lledaenu dros gyfnod hirach. Fodd bynnag, byddai hyn hefyd yn gwneud contractau'n llai hyblyg. Fel arfer, mae sefydliadau'n gallu ymateb i newidiadau yn y farchnad drwy gyflawni eu cylch gwaith mewn gwahanol ffyrdd, ond mae perygl gwirioneddol y gallai contractau manwl DGCau amharu ar allu gweithredwyr i ddarparu gwerth cyhoeddus. Tra bod sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn gallu bod yn arloesol, efallai na fydd sefydliadau masnachol sydd ar gontract yn gallu gwneud hynny, a gellid naill ai drosglwyddo contractau yn ôl neu eu lleihau i gydymffurfiaeth fecanyddol.

I'r Ymddiriedolaeth, mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu y byddai defnyddio arian ffi'r drwydded yn debygol o newid disgwyliadau rheoleiddio'r darparwyr hynny, yn ogystal â gwanhau cymhellion masnachol drwy gymysgu refeniw masnachol ac arian cyhoeddus. O ran y lleiafrif o'r gynulleidfa nad ydynt yn gweld cysylltiad rhwng gwasanaethau'r BBC a ffi'r drwydded, credwn na ddylai'r ateb i ddiffyg eglurder ynglŷn ag arian ddrysu'r mater ymhellach. Yn hytrach na hynny, byddai'n well egluro'n well ar gyfer beth y defnyddir ffi'r drwydded, yn ogystal â pharhau i weithio i sicrhau ei bod hi'n amlwg bod y BBC yn atebol i bob cynulleidfa.

### 5.1.3 Agweddau'r gynulleidfa at frigdorri

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn nodi bod gan y bobl a ymatebodd i ymgynghoriad cyfnod un Ofcom agwedd negyddol ar y cyfan at ddefnyddio arian ffi'r drwydded y tu hwnt i'r BBC. Roedd y mwyafrif o unigolion yn daer o blaid cadw ffi'r drwydded ar gyfer y BBC, ac fe anfonwyd 2,500 o gardiau post a 700 e-bost yn gwrthwynebu rhannu ffi'r drwydded gyda darlledwyr eraill. Mae 'amrywiaeth eang o randdeiliaid' yn rhannu'r farn honno, gan gynnwys ITV[10], Five, PACT, a BSkyB.

Dangosodd ymchwil ansoddol ar gyfer y BBC safbwynt tebyg ar yr egwyddor o ddefnyddio ffi'r drwydded i ariannu DGCau masnachol. Roedd pobl yn anghytuno ynglŷn â pha mor briodol oedd hi i ddefnyddio arian ffi'r drwydded ar gyfer DGC ar y sianeli hyn: credai llawer y byddai'n deg rhannu ffi'r drwydded rhwng darlledwyr (er bod lleiafrif yn hapus i weld y BBC yn llwyr gyfrifol am DGC). Fodd bynnag, wrth bwyso a mesur, a phan drafodwyd manteision ac anfanteision posibl brigdorri yn fanylach, newidiodd y rhain hynny a oedd o blaid brigdorri yn y lle cyntaf eu meddyliau. Roedd llawer yn bryderus am effaith brigdorri ar y BBC, yn arbennig, yr effaith niweidiol bosibl ar ansawdd, tra nad oedd eraill am weld yr amrywiaeth o raglenni a gwasanaethau a gynhyrchir gan y BBC yn gostwng.

Roedd pryderon hefyd bod yr amrywiaeth o raglenni yn cael ei gyfaddawdu, pryderon am doriadau mewn darlledu rhanbarthol, a/neu gyflwyno nawdd neu arferion masnachol tebyg ar y BBC: elfennau sydd i gyd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr fel nodweddion o'r BBC. Roedd rhai cyfranogwyr penodol yn cwestiynu a ddylid caniatáu cwmnïau masnachol i gynnwys hysbysebion mewn unrhyw raglenni sy'n cael eu hariannu gan arian cyhoeddus: ar y cyfan roeddynt yn credu na ddylent.

Roedd llawer hefyd yn bryderus y byddai Ffi'r Drwydded yn codi'n gymesurol i dalu am yr ariannu ychwanegol, ac mai dim ond cam cyntaf yn unig fyddai'r swm lleiaf o frigdorri. Bydd hyn naill ai'n golygu y byddai'r BBC yn colli incwm yn barhaus, neu gynnydd sefydlog yn Ffi'r Drwydded, ac nid oedd yr un o'r rhain yn dderbyniol.

Mae'r canfyddiadau ansoddol hyn yn eithaf tebyg i'r rhai a arsylwyd yn yr arolwg meintiol Cyfnod un a gomisiynwyd gan y BBC ym mis Mai 2008. Pan ofynnwyd iddynt ystyried amrywiaeth o ddulliau ariannu amgen y gellid eu defnyddio i ariannu DGC ar y DGCau sy'n cael eu hariannu'n fasnachol, derbyniodd yr holl ddulliau ariannu sgôr cymharol isel. Defnyddio ffi'r drwydded oedd un o'r opsiynau mwyaf amhoblogaidd, gan dderbyn sgôr gymedrig o 4.6 allan o 10. Pan gynigiwyd amrywiaeth lawn o opsiynau ariannu, 13% yn unig o ymatebwyr oedd yn teimlo mai dyma'r dull gorau o ariannu ymrwymiadau DGC ar ITV1, Channel 4 a Five.

### 5.1.4 Effeithiolrwydd brigdorri

Wrth fwrw golwg ar effeithiolrwydd ymyrryd drwy frigdorri, mae angen ystyried dwy elfen. Yn gyntaf, a fyddai derbynnydd ffi'r drwydded yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd? Yn ail, beth fyddai'r effaith ar lwyddiant y BBC i gyflawn ei dibenion cyhoeddus?

O ran y cwestiwn cyntaf, newyddion rhanbarthol yw'r prif faes a nodir gan Ofcom fel maes sydd mewn perygl a chan gynulleidfaoedd fel maes pwysig i'w gynnal. Mae rhaglenni plant yn faes arall a fu'n bwnc trafod. Er nad oedd pob cynulleidfa'n ei nodi fel maes pwysig i'w gynnal, mae'n haeddu sylw oherwydd bod yna gynulleidfa darged benodol a chyfyngedig ac yn sgil ei bwysigrwydd i rieni a chymdeithas yn gyffredinol.

Ar wahân i'r materion a godwyd uchod wrth drafod y defnydd o ffi'r drwydded, mae'r Ymddiriedolaeth yn cwestiynu ai Channel 4, y prif sefydliad sydd i fod i dderbyn arian ffi'r drwydded, yw'r cyfrwng priodol ar gyfer ymyrraeth mewn newyddion rhanbarthol (mae Ofcom hefyd yn cydnabod hyn, sy'n awgrymu y gallai hwn fod yn faes lle gellir cystadlu am arian) a rhaglenni plant. Nid oes gan Channel 4 hanes o ddarparu yn y naill faes na'r llall, ac er ei fod yn darparu gwasanaeth newyddion rhyngwladol uchel ei barch, nid oes ganddo'r seilwaith i ddarparu newyddion rhanbarthol.

O ran yr ail gwestiwn, mae'r Ymddiriedolaeth yn pryderu bod brigdorri yn cyfaddawdu annibyniaeth y BBC. Mae arian cyfredol y BBC yn dod o ffi'r drwydded, nid o drethi uniongyrchol. Caiff yr arian hwn ei ddyrannu mewn setliadau sy'n darparu ffrydiau arian sefydlog a rhagweladwy er mwyn i'r BBC allu seilio'i strategaeth hirdymor arnynt. Mae'r BBC yn atebol i'r Ymddiriedolaeth, fel ei gorff sofran, ar gyfer datblygu a darparu'r strategaeth hon. Er mwyn cyflwyno pethau eraill i fod yn ddibynnol ar ffi'r drwydded, byddai gofyn i gorff arall benderfynu ar lefel yr arian ar gyfer y BBC a darlledwyr eraill. Byddai'r corff hwn yn gorfod ysgwyddo pwysau ychwanegol i'r rhai a ysgwyddir gan y BBC yn unig, ac felly byddai hyn yn cael gwared ar allu'r BBC i ddilyn strategaeth hirdymor a ddarperir gan sicrwydd arian, a'r llinellau atebolrwydd clir a ddarperir ar hyn o bryd gan yr Ymddiriedolaeth.

## 5.2 Ffynonellau arian eraill

### 5.2.1 Asedau rheoleiddio

Mae Ofcom wedi amcangyfrif y bydd gwerth tebygol yr arian sydd ar gael ar gyfer DGCau masnachol o ffynonellau amrywiol yn £185 miliwn erbyn 2012/13. Mae'r Ymddiriedolaeth yn credu y gall y mecanweithiau ariannu cyfredol hyn barhau i wneud cyfraniad sylweddol at DGC, ac felly dylai asedau rheoleiddio fod yn rhan bwysig o unrhyw ateb. Bydd y casgliad cyfredol o asedau rheoleiddio hefyd yn cadw eu gwerth ar ôl y trosglwyddo i ddigidol ac felly'n parhau i gynnig manteision sylweddol i'r system DGC. Drwy eu defnyddio yn effeithlon, credwn y gall y rhain barhau i gynnig manteision i DGC ar ôl 2012.

Mae gwerth yr asedau rheoleiddio hyn fel a ganlyn:

- Costau sbectrwm is – mae ITV a Channel 4 yn cael mynediad i'r sbectrwm, ac mae Five yn derbyn cyfraddau ffafriol
- Sylw priodol i ITV1, Channel 4 a Five ar amserlenni rhaglenni electronig ac amserlenni teledu
- Nid oes rhaid i Channel 4 dalu difidend cyfranddaliwr (fel y mae ITV yn ei wneud) gan ei fod mewn perchnogaeth gyhoeddus
- Mwy o sylw i'r DU ar amlblethau DGC (o gymharu â rhai masnachol)

Mae'r ffordd y mae'r gwerth hwn yn cael ei greu yn cyfyngu ar ddefnydd amgen asedau o'r fath. Mae hyn oherwydd ei bod hi'n anodd ailddyrannu unrhyw rai o'r asedau hyn heb golli rhywfaint o'r gwerth sy'n cael ei greu ar hyn o bryd.

Er enghraifft, yn ystod yr un mlynedd ar ddeg ddiwethaf, mae Five wedi cynyddu ei frand a'i enw da i sefydlu ei hun yn gadarn fel rhan bwysig o'r system DGC. Mae sylw priodol ar amserlenni rhaglenni electronig a lle ochr yn ochr â'r DGCau eraill ar amserlenni teledu yn ei alluogi i barhau yn bumed sianel fwyaf y DU. Gallai colli'r manteision hyn arwain at ddirywiad hirdymor yn nifer y gwylwyr. Pe bai'r manteision hyn yn cael eu trosglwyddo i sianel neu ddarlledwr arall, mae'n amheus a fyddent yn gallu ail-greu llwyddiant Five, ac felly'n cyfyngu ar fanteision DGCau a allai'r rheoleiddiwr eu cael.

Mae gallu'r rheoleiddiwr i gael gwerth o'r slotiau ar Mux 2 yn rhagdybio bod Ofcom yn cadw rheolaeth o'r amlblethau a bod ITV yn parhau i dderbyn y slotiau. Pe bai'r slotiau hyn yn cael eu gwerthu, gallai'r asedau rheoleiddio ostwng o swm sylweddol. Mae'n anodd pennu'r union ffigur, ond gallai fod hyd at £40 miliwn. Pe bai Channel 4 yn cael ei chau allan o'r arwerthiant (fel y mae modelau 2 a 3 Ofcom yn awgrymu), gallai'r golled fod hyd at £30 miliwn y flwyddyn.

Felly, gellid gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o asedau rheoleiddio cyfredol pe bai'r prif DGCau yn parhau i dderbyn arian DGC, lle gallai asedau rheoleiddio fod yn werth £185 miliwn y flwyddyn 0 2012. Mae hyn yn cael ei ddosbarthu'n anghyfartal i'r darlledwyr, gyda Channel 4 yn derbyn bron i hanner yr arian a'r gweddill yn cael ei rannu rhwng ITV a Five.

### 5.2.2 Mathau eraill o ariannu uniongyrchol

Mae Ofcom wedi awgrymu nifer o ffynonellau ariannu posibl i gynorthwyo DGC ar wahân i ffi'r drwydded, ond ymddengys bod yr opsiynau hyn hefyd yn achosi problemau ac efallai eu bod yn amhriodol i ariannu ar raddfa fawr.

- Er ei fod yn bosibl, o ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, gallai arian cyhoeddus ychwanegol fod yn ateb anodd ei weithredu. Mewn achosion penodol, efallai y bydd yna ryw fath o swyddogaeth ar gyfer ffynonellau arian cyhoeddus bach uniongyrchol, er enghraifft swyddogaeth bosibl ar gyfer llywodraeth ddatganoledig yn yr Alban. O fewn y BBC, mae adrannau'r llywodraeth yn rhoi arian pwrpasol ar gyfer amcanion polisi penodol, er enghraifft grant y Swyddfa Dramor a Chymanwlad i World Service y BBC
- Yn yr un modd, os cyflwynir trethi diwydiant bydd yn bwysig sicrhau nad yw'r rhain yn rhwystro arloesedd a buddsoddiad mewn byd lle mae cyllidebau yn debygol o gael eu cwtogi beth bynnag oherwydd y dirywiad ym maes hysbysebu a phwysau economaidd.

### 5.2.3 Gwella effeithlonrwydd

Ar yr un pryd, dylid rhagdybio bod sefydliadau yn gwneud y defnydd gorau o'r asedau a'r incwm sydd ganddynt. Mae angen i bob DGC sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl i geisio osgoi unrhyw doriadau mewn cyllidebau rhaglenni. Mae'r BBC yn ymrwymedig i effeithlonrwydd o flwyddyn i flwyddyn yn ystod y pum mlynedd nesaf, a byddai'n disgwyl i ddarlledwyr eraill sy'n eiddo i'r cyhoedd fabwysiadu targedau tebyg. Mae cyfle i gynyddu effeithlonrwydd yn y sector i sicrhau arbedion yn gyffredinol ac yn narpariaeth DGC.

## 5.3 Y potensial ar gyfer cyflwyno elfen o gystadleuaeth

Gofynnodd Ofcom pa swyddogaeth a ddylid ei rhoi i gystadleuaeth am arian yn y dyfodol, ym mha feysydd cynnwys, ac a oedd gennym sylwadau ar ddisgrifiad Ofcom o sut i roi elfen o gystadleuaeth ar waith yn ymarferol. Mae gennym amheuaeth am ddefnyddio model cystadleuaeth ar gyfer darpariaeth DGC gan ein bod yn credu ei fod yn annhebygol o sicrhau gwerth am arian ac na fydd yn effeithlon o ran cyrraedd cynulleidfaoedd. Rydym yn rhannu llawer o'r pryderon y mae Ofcom yn eu hamlygu yn eu dogfen ymgynghori.

Yn benodol, rydym yn credu bod elfen o gystadleuaeth yn debygol o:

- Gynyddu cost darpariaeth DGC
- Gosod baich rheoleiddio cymhleth ar dderbynyddion posibl ac atal addasiadau hyblyg i farchnad newidiol
- Arwain at newidiadau cyfyngedig i ddarpariaeth DGC gyfredol.


### 5.3.1 Mwy o gostau

Gallai elfen o gystadleuaeth gynyddu costau mewn sawl ffordd – yn enwedig drwy gynyddu costau rhaglenni a thrwy waith gweinyddu ychwanegol.

Gan edrych yn gyntaf ar gostau rhaglenni, gall BBC ac ITV fanteisio ar ddarbodion maint mewn costau cynhyrchu, tra bod yr holl DGCau cyfredol yn gallu manteisio ar gynulleidfaoedd mawr a etifeddwyd i sicrhau bod cymaint o bobl yn gwylio'u rhaglenni â darparwyr eraill.

Mae model Cap Gemini ar gyfer y BBC yn awgrymu bod y gost gyfartalog o gyrraedd cynulleidfaoedd yn uwch i'r sianeli llai (wrth fesur y gost fesul awr gwyliwr). Er bod y gost cyfle fesul awr darlledu yn is ar sianeli llai, mae'r gost fesul gwyliwr yn awgrymu bod darpariaeth ar ITV a'r prif sianeli eraill, ar ôl y BBC, yn fwy cost effeithiol yn yr hirdymor.

**Ffigur 4: Cymharu cost fesul awr gwylir rhaglenni materion cyfoes**




[Graph text]

Cost per viewing hour (pence) = **Cost fesul awr gwylio (ceiniogau)**
Thematic Channels = **Sianeli thematig**

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Capgemini*

Rydym yn cydnabod efallai y bydd angen cymorth pellach ar ITV, Channel 4 a Five, ac y bydd angen ystyried eu cylchoedd gwaith yn ofalus ar ôl trosglwyddo i ddigidol, ond maent yn parhau i gynnig y cyfle gorau i ddarparu DGC i gynulleidfaoedd mawr.

O ran y costau gweinyddu, mae dyrannu arian yn ôl model cystadleuaeth yn siŵr o gynyddu cost darparu yn sgil gwaith gweinyddu ychwanegol: mae dadansoddiad CapGemini yn awgrymu bod cyrff ariannu cyfredol yn gwario 5-10% o'u harian ar weinyddu.

Mae costau eraill yn gallu bod yn uwch. Mae yna berygl y byddai yna gynnwys yn cael ei ariannu a fyddai wedi cael ei wneud beth bynnag, gan y bydd hi'n anodd nodi cynnwys amhroffidiol. Mae economeg darlledu yn gymhleth ac mae'n anodd dychmygu y byddai unrhyw gorff ariannu'n gallu cadw trefn ar gyfrifon darparwyr DGC yn effeithiol i sicrhau darpariaeth.

Yn olaf, mae'n amlwg nad yw'n hawdd cynnal llawer o'r mathau o raglenni sydd mewn perygl wrth ddefnyddio model cystadleuaeth. Er enghraifft, mae Ofcom yn nodi rhaglenni Gwledydd a Rhanbarthau fel derbynnydd arian cystadleuol posibl mewn dau

o'r tri model ar gyfer darpariaeth DGC. Fodd bynnag, mae cynnwys Gwledydd a Rhanbarthau yn gofyn am lefel uchel o fuddsoddiad costau sefydlog, tra bod bwletinau ychwanegol yn gymharol rad. Byddai model cystadleuaeth yn golygu y byddai angen i bob darparwr newydd fuddsoddi'n drwm cyn gallu darparu. Credwn mai rhywfaint yn unig o feysydd cynnwys sy'n bodloni meini prawf Ofcom o fod yn addas ar gyfer cystadleuaeth - lle 'mae nifer o ymgeiswyr gyda modelau busnes, costau cyfle a chyrhaeddiad cynulleidfa tebyg.'

### 5.3.2 Newid cyfyngedig

O ystyried nodau penodol Ofcom ar gyfer DGC a phwysigrwydd effaith, rydym hefyd yn credu na fyddai'r elfen o gystadleuaeth yn ymestyn sail darpariaeth DGC yn sylweddol. Mae dadansoddiad Cap Gemini o'r gost fesul awr gwyliwr i ymyrryd yn awgrymu'n gryf mai DGC ar sianeli cynulleidfaoedd mwy yw'r dull mwyaf cost effeithiol (gweler uchod),

Mae'r safbwynt hwn hefyd yn cael ei ategu gan ymddygiad y gynulleidfa. Er gwaethaf twf sianeli digidol a chynnwys teledu ar-alw, mae cyrhaeddiad a ffigurau gwylio'r prif ddarlledwyr daearol yn parhau'n uchel, gyda 86% o unigolion yn y DU yn gwylio bob wythnos o gymharu â 87% dair blynedd yn ôl. Mae pobl hefyd yn treulio mwy o amser yn gwylio'r prif sianeli, cynnydd o 16 munud yr wythnos yn fwy o gymharu â'r llynedd[11]. Er y gallai'r sefyllfa newid gydag amser, ymddengys bod gwasanaethau ar-alw yn cael eu gwylio yn ogystal â'r teledu, nid yn lle teledu.

O ganlyniad i hyn, byddem yn disgwyl i'r darlledwyr mwyaf ennill y mwyafrif o gontractau. Yng nghyd-destun cynnwys gwerth uchel yn arbennig, mae'n anodd gweld arian yn sicrhau canlyniadau effeithiol os yw'n cael ei ddyrannu i ddarlledwyr bach: nid yn unig bod gan y prif DGCau y fantais o ran maint, mae ganddynt hefyd frandiau sefydledig y mae pobl yn ymddiried ynddynt a hanes cadarn o gynhyrchu cynnwys DGC. Er bod hyn yn ganmoladwy, mae'n anodd gweld corff ariannu sy'n gyfrifol am effaith yn dyrannu llawer o gyllid i rywle arall.

## 5.4 Partneriaethau: ateb amgen?

Er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer cynulleidfaoedd, dylai'r drafodaeth ehangach ganolbwyntio ar ddarparu atebion cynaliadwy, yn hytrach nag ar ddiffygion amcangyfrifol yn y tymor byr a throsglwyddo symiau o arian rhwng darlledwyr. Er mwyn gwneud DGC yn gynaliadwy ac effeithiol yn yr hirdymor, bydd angen mabwysiadu dull gwahanol sy'n gydnaws â newidiadau yn y farchnad ac sy'n ceisio diogelu DGC drwy ganfod ffynonellau gwerth newydd, yn hytrach nag ailddyrannu arian cyfredol yn unig.

Fel rhan o gyfnod un, heriodd Ymddiriedolaeth y BBC y Bwrdd Gweithredol i archwilio ffyrdd newydd o gynorthwyo i drosglwyddo manteision maint a buddsoddiad cyhoeddus y BBC i'r sector cyfan. Y rheswm wrth wraidd yr her hon oedd datblygu ateb strategol hirdymor i'r problemau sy'n wynebu DGC, yn seiliedig ar gryfderau sefydliadau penodol, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gynulleidfaoedd. Rhaid newid agweddau sylfaenol ac anghofio'r syniad o'r BBC fel ffynhonnell ddi-ben-draw o adnoddau, a chwilio am bob cyfle i weithio mewn partneriaethau agosach â darlledwyr eraill. Mae

[11] Ffynhonnell: BARB 2008 Q3, "daearol" yn cynnwys C4+1

hefyd yn gyfle gwych i ddarparu'r dibenion cyhoeddus yn well ac felly cynnig gwell gwerth cyhoeddus i gynulleidfaoedd.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn croesawu'r cynigion hyn. Maent yn cynnig y cyfle i wneud cyfraniad ystyrlon at ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Mae'r cynigion partneriaeth allweddol yn cynnwys:

- Rhannu BBC iPlayer
- IPTV
- Cefnogi'r defnydd o fand eang
- Cefnogi DAB
- Rhannu technoleg cynhyrchu digidol gyda'r holl ddarlledwyr eraill
- Rhannu cyfleusterau newyddion rhanbarthol
- Cytundebau masnachol yn cynnwys BBC Worldwide
- Rhannu ymchwil

Yn ystod cyfnod cyntaf adolygiad DGC Ofcom, aeth yr Ymddiriedolaeth ati i gyhoeddi unrhyw gynigion partneriaeth y mae'n eu derbyn ac i geisio barn y diwydiant, rhanddeiliaid a thalwyr trwydded. Rydym yn gwneud hynny ar hyn o bryd ac mae gennym ddiddordeb penodol yn safbwyntiau darpar bartneriaid a phartneriaid go iawn. Byddai gennym ddiddordeb mewn clywed sylwadau cyffredinol am y cynigion yn eu cyfanrwydd a byddwn yn eu derbyn am y tri mis nesaf.

Bydd mwyafrif y cynigion yn amodol ar gymeradwyaeth gyffredinol yr Ymddiriedolaeth o dan y protocolau cyfredol. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu gwerthuso yn erbyn y cwestiynau canlynol:

- A yw'r cynigion yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ac yn arwain at ganlyniad cynaliadwy?
- A ydynt yn cynnig gwerth y gellir ei arddangos i ddarpar bartneriaid a rhanddeiliaid eraill?
- A ydynt yn cynrychioli cynnig gwirioneddol, heb eithrio opsiynau a allai arwain at gostau ariannol i'r BBC – os gellir cyfiawnhau'r gost honno gyda'r manteision i'r cyhoedd?
- A all yr Ymddiriedolaeth fod yn sicr nad yw'r egwyddorion o annibyniaeth, atebolrwydd a chyflawni'r dibenion cyhoeddus yn cael eu peryglu?
- A yw'r cynigion hyn o fudd i'r cyhoedd ym marn yr Ymddiriedolaeth?

O fewn y cwestiynau hyn, mae gan yr Ymddiriedolaeth ddau bwynt y bydd yn rhoi sylw penodol iddynt:

**Sicrhau bod partneriaethau yn darparu manteision i gynulleidfaoedd**

Y mater allweddol i'r Ymddiriedolaeth fydd sut mae'r cynigion yn sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran darparu manteision i gynulleidfaoedd, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac unrhyw effaith ar y sector darlledu ehangach.  Yn benodol, bydd yr Ymddiriedolaeth yn rhoi sylw arbennig i'r cyfle i sicrhau bod mentrau penodol ar gael i fwy o ddarlledwyr a darparwyr cyfryngau eraill.

Byddwn yn ceisio cydweithredu ag Ofcom sydd â'r pwerau angenrheidiol i drwyddedu DGC masnachol a hefyd i benderfynu a oes gan y darlledwyr hynny'r arian sydd ei angen ar gyfer eu hymrwymiadau. Yn wir, er ei fod yn fater i Ofcom, mae'n rhaid iddi fod yn bosibl i nifer, ystod ac amrywiaeth y rhai hynny a ddosberthir yn 'DGCau' allu newid gydag amser.

**Partneriaeth fel model cynaliadwy**

Yn amodol ar ganlyniad unrhyw sylwadau a phrosesau rheoleiddio dilynol, bydd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried cynnydd ar bartneriaethau gan y Bwrdd Gweithredol a'r manteision dilynol bob chwarter a bydd hefyd yn cyhoeddi ei sylwadau ar gynnydd cyffredinol yn ei hadroddiad blynyddol.  Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau'n agored i gynigion pellach gan y Bwrdd Gweithredol ar gyfer partneriaethau posibl eraill.

Mae yna hefyd ddwy agwedd benodol ar y cynigion lle mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu defnyddio ei phwerau rheoleiddio ehangach:  y penderfyniad i agor y gwasanaeth iPlayer i ddarlledwyr eraill (lle bydd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried a ddylid defnyddio Prawf Gwerth Cyhoeddus) a datblygiad IPTV, sydd, ym marn yr Ymddiriedolaeth, yn gofyn am broses gymeradwyo 'ddiwasanaeth' o dan Gytundeb y BBC.

### 5.4.1 Amserlen i ystyried

Nod yr amserlen weinyddol ganlynol yw dangos yn fras pryd y gallai'r Ymddiriedolaeth ystyried y prif faterion.  Brasamcan yn unig yw'r dyddiadau ac nid yw hyn yn tanseilio cyfrifoldebau rheoleiddio'r Ymddiriedolaeth.

- Rhagfyr – Y broses gymeradwyo ddiwasanaeth ar gyfer IPTV yn dechrau gydag ymgynghoriad ddechrau'r flwyddyn newydd.
- Rhagfyr - Chwefror 2009 – Yr Ymddiriedolaeth yn agored i sylwadau ar gynigion partneriaeth yn eu cyfanrwydd.
- Gwanwyn 2009 – Lansio PVT o bosibl i rannu iPlayer.
- Haf 2009 – Penderfyniad diwasanaeth ar gyfer IPTV.
- Hydref 2009 – Penderfyniad PVT ar gyfer rhannu iPlayer.

Bydd manylion y prosesau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wahân.

# 6 Casgliadau

Mae heriau sylweddol yn wynebu'r system DGC ar hyn o bryd ac mae'r byd darlledu yn newid yn gyflym. Yn yr hinsawdd hon mae'n bwysig bod penderfyniadau ar ddarpariaeth DGC yn y dyfodol yn cael eu gwneud ar sail anghenion cynulleidfaoedd yn unig.

Mae cynulleidfaoedd yn parhau i werthfawrogi DGC, ond mae'r rhesymau dros y gwerthfawrogiad hwn yn gymhleth. Tra'u bod yn amlwg o blaid darpariaeth y tu hwnt i'r BBC, mae'r lefel o anghenion hanfodol y maent yn eu nodi yn amrywio fesul genre, gyda newyddion rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol ar frig blaenoriaethau cynulleidfaoedd, a mathau o raglenni eraill sydd mewn perygl fel rhaglenni am y celfyddydau a cherddoriaeth glasurol a chrefydd yn cael blaenoriaeth llawer is.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn credu bod gan yr holl DGCau cyfredol - ITV1, Channel 4 a Five - swyddogaeth bwysig yn y dyfodol. Mae cynulleidfaoedd yn dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r gwahanol gyfraniadau gan bob un o'r prif ddarlledwyr. Fodd bynnag, mae ymchwil ddiweddar a gynhaliwyd ar ran y BBC wedi datgelu bod cynulleidfaoedd yn llai parod i dalu am DGC nag a ddatgelwyd mewn ymchwil a gyhoeddwyd gan Ofcom, yn arbennig yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Mae cynnal darpariaeth DGC a'i chryfhau ar gyfer y dyfodol yn dipyn o her.

Dim ond ychydig o'r gynulleidfa sydd o blaid defnyddio arian ffi'r drwydded i dalu am ddarpariaeth y tu hwnt i'r BBC. Mae ymchwil cynulleidfa ddiweddaraf y BBC yn dangos bod yr ymwybyddiaeth ddigymell o'r hyn y mae ffi'r drwydded yn talu amdano yn llawer uwch na'r hyn a ddatgelodd Ofcom, a bod cysylltiad cryf rhwng y canfyddiadau pobl am arian ffi'r drwydded a disgwyliadau cynulleidfaoedd o ddarlledwyr.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn pryderu bod brigdorri yn cyfaddawdu annibyniaeth y BBC. Mae arian cyfredol y BBC yn dod o ffi'r drwydded, nid o drethi uniongyrchol. Caiff yr arian hwn ei ddyrannu mewn setliadau sy'n darparu ffrydiau arian sefydlog a rhagweladwy er mwyn i'r BBC allu seilio'i strategaeth hirdymor arnynt. Mae'r BBC yn atebol i'r Ymddiriedolaeth, fel ei gorff sofran, ar gyfer datblygu a darparu'r strategaeth hon. Er mwyn cyflwyno pethau eraill i fod yn ddibynnol ar ffi'r drwydded, byddai gofyn i gorff arall benderfynu ar lefel yr arian ar gyfer y BBC a darlledwyr eraill. Byddai'r corff hwn yn gorfod ysgwyddo pwysau ychwanegol i'r rhai a ysgwyddir gan y BBC yn unig, ac felly byddai hyn yn cael gwared ar allu'r BBC i ddilyn strategaeth hirdymor a ddarperir gan sicrwydd arian, a'r llinellau atebolrwydd clir a ddarperir ar hyn o bryd gan yr Ymddiriedolaeth.

Mae gan yr opsiynau ariannu eraill a awgrymwyd eu problemau eu hunain. Mae hyn yn golygu bod yna benderfyniadau anodd i'w gwneud. Mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i unrhyw ateb gynyddu'r arian a roddir i DGC, a rhoi rhagor o fanteision i ddarlledwyr, yn hytrach nag ailddosbarthu'r arian yn unig. Heddiw, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cyhoeddi'r partneriaethau arfaethedig hynny ac mae'r Ymddiriedolaeth yn awr am dderbyn sylwadau cynulleidfaoedd a phartneriaid posibl.

# 7 Atodiadau

7.1 Modelu marchnad CapGemini

7.2 Ymchwil i gynulleidfaoedd